

AWSTRALIA

A’R

CLODDFEYDD AUR.

---

“NAC wylwch wrth heddyw ymadael â ni,  
Hyf ydym, a dewrion ein hunain;  
I ororau yr aur, lle mae cyfoeth a bri,  
Rhagluniaeth y nef sy’n ein harwain;  
Nac wylwch, er gorfod ’n awr ganu ‘Yn Iach!’  
Yn fuan, cawn lanio ’n AWSTRALIA;  
A dychwelwn yn ol yn mhen enyd fach:  
Yr Arglwydd o’r nef yw ein noddfa.”  
DANIEL DDU O FON—*wrth gychwyn* .

---

DINBYCH:  
CYHOEDDWDYD GAN THOMAS GEE.

MDCCCLII.

AUSTRALIA

AND THE

GOLDFIELDS.

---

“WEEP ye not on leaving us today,  
We are stout, intrepid and strong;  
To golden shores of wealth and fame,  
Providence leads us on;  
Weep ye not, though we sing ‘Farewell!’  
In AUSTRALIA soon we shall land;  
To return again in just a spell:  
Kept safe by our Lord God’s hand.”  
DANIEL DDU O FON—*on setting sail* .

---

DENBIGH:  
PUBLISHED BY THOMAS GEE.

MDCCCLII.

## RHAGYMDRODD.

Y MAE mwy o son am Awstralia yn y dyddiau hyn nag am un wlad arall ar wyneb y ddaear. Y mae miloedd ar filoedd o'n hen gydwladwyr wedi cyrhaedd yno eisoes, a channoedd yn cychwyn allan agos gyda phob llanw. O ganlyniad, y mae yn anhebgorol anghenrheidiol i'r neb sydd yn bwriadu ymfudo gael cymaint o hanes y “Wlad Euraidd” ag sydd yn gyrhaeddadwy cyn ei gychwyn; tra y mae y rhai a farnant mai doethach yw aros gartref yn chwennychu gwybod i ba fath le y mae eu cymydogion ymadawol yn myned. Cyfarfod y dymuniad hwn yw ein hamcan yn nghyhoeddiad y gwaith bychan hwn: ac er nad yw yr awdwr, mewn un modd, yn meddwl y gall ymfrostio bod y llyfryn hwn yn meddu unrhyw deilyngdod fel cyfansoddiad Cymreig llenyddol, y mae yn hyder, yn ostyngedig, y cydnebydd pob darlennydd diragfarn na cheir cymaint o hanes Deheubarth Cymru Newydd a Phorth Phylip yn ngwaith unrhyw un awdwr arall, pa un bynag ai Cymreig neu Seisonig. Nid cyfarfod amddifadrwydd y Cymro uniaith yn unig oedd ei amcan; ond gwasanaethu y darlennydd dwyieithawg yr un ffunud, trwy roddi iddo, yn yr iaith Gymraeg, mewn un llyfr rhad, swm a sylwedd yr *oll* a ysgrifenydd ar Awstralia gan yr awduron Seisonig: ac oblegid hyn y mae yn cyflwyno hyn o waith, yn ostyngedig a pharchus, nid yn unig i'r “Cymro glân,” ond hefyd i bob Sais, Ysgotiad, Gwyddel, neu estron, a fedr ddarllen Cymraeg. Cydnabyddir yr “awdurdodau” yn nghorff y gwaith: ac y mae yr awdur yn teimlo ei rwymedigaeth arbenig i'r ddau foneddwr Seisonig a grybwyllir yn y traethawd canlynol, y rhai a rhoddasant iddo, mor gymwynasgar a charedig, gymaint o hanes hen wlad eu hymdaith; gyda phob eglurhad ar yr hyn a ymddangosai yn dywyll, yn ddiffygiol, yn ammhëus, neu yn wrthddywediadol, yn y gwahanol awduron Seisonig. At hyn, ychwanegwyd darlith ragorol Mr. Schilling ar gloddio aur, yr hon na ymddangosodd o'r blaen mewn unrhyw waith ar Awstralia.

J. WILLIAMS [GLANMOR].

## INTRODUCTION.

THERE is more talk of Australia nowadays than of any other country on the face of the earth. Thousands upon thousands of our former compatriots have arrived there already, and hundreds set out with almost every tide. In consequence, it is absolutely necessary that anyone intending to emigrate have as much of the story of the “Land of Gold” as is available before his departure; while those who consider it wiser to remain at home desire to know what kind of place awaits their departing neighbours. To meet this wish is our aim in publishing this small work: and although the author in no way believes that he can claim for it any merit as a Welsh literary composition, he is humbly confident that all unprejudiced readers will acknowledge that a fuller account of New South Wales and Port Phillip is not to be found in the work of any other *single* author, whether Welsh or English. To meet the need of the monolingual Welshman alone was not the aim, but also to serve the bilingual reader in the same way, by giving him, in the Welsh language, in one inexpensive book, the sum and substance of *all* that has been written on Australia by the English authors: and to this end the present work is presented, humbly and respectfully, not only to the “pure Welshman,” but also to every Englishman, Scot, Irishman, or foreigner who can read Welsh. The “authorities” are acknowledged in the body of the work: and the author feels his special debt to the two English gentlemen mentioned in the following treatment, who gave him, so kindly and obligingly, so much of the history of the land in which they had once travelled, with every explanation for what seemed obscure, defective, doubtful, or contradictory, in the various English authors. In addition, Mr Schilling's splendid lecture on gold digging, which has not previously appeared in any work on Australia, has been included.

J. WILLIAMS [GLANMOR].

## CYNNWYSIAD

---

### PENNOD I.

DESGRIFIAD cyffredinol.—Maintioli a sefyllfa Holland Newydd.—Desgrifiad o'r arfordir.—Sefydliadau Afon Alarch, Ynys Kangaroo, &c.—Mynyddoedd Awstralia.—Mynyddoedd tanlyd.—Y canoldir anial.—Llyniau ac Afonydd.—Anifeiliaid, adar, pysg, &c.—Y cynfrodorion.—Hinsawdd gyffredinol.—Ymddyddan rhwng yr awdur â hen sefydlwr.

---

### PENNOD II.

Dychymyg ein hynafiaid am y “Tir mawr Deheuol.”—Y Chinëiaid yn darganfod Awstralia gyntaf.—Darluniad Marco Polo o'r Tir Deheuol.—Anturiaethau boreuol yr Ysperiaid, yr Isellmyn, y Ffrancod, a'r Seison.—Dirk Hartog yn darganfod goror orllewinol Awstralia.—Y Morlywydd Tasman.—Y Cadben Cook yn ymweled âg Awstralia.—Van Couver yn chwilio yr oror ddeheuol.—Y Cadben Tobias, a'r Cadben Furneaux, yn ymweled âg Awstralia a Gwlad Van Diemen.—Ail ymweliad Cook.—D'Entrecastau a Bligh yn ei ddilyn.—Penodi Awstralia yn Sefydliad poenol.—Y Cadben Phylip yn sefydlu y drefedigaeth.—Dechreu ei gwladychu.—Bass a Flinders yn chwilio y gororau.—John Oxley yn *mapio* y wlad.—Darganfyddiadau y Cadben Sturt yn y canoldir.—Allen Cunningham yn myned allan i chwilio y wlad.—Anturiaeth Syr T. L. Mitchell; ei ddyoddefiadau yn yr anialwch canoldirol, a'i ddarganfyddiad o Awstralia Ddedwydd.—Darganfyddiadau y Cadben Stokes, Mr. Tyre, Mr. Dixon, Stizeleccki, a'r yswatwyr.—Y Dr. Leichhardt ar goll yn y canoldir.

---

## CONTENTS

---

### CHAPTER I.

GENERAL description.—Size and location of New Holland.—Description of the coast.—The settlements on the Swan River, Kangaroo Island, &c.—The mountains of Australia.—Volcanoes.—The desert interior.—Lakes and Rivers.—Animals, birds, fish, &c.—The aborigines.—General climate.—A conversation between the author and a former settler.

---

### CHAPTER II.

Our ancestors' ideas about the “Great South Land.”—The Chinese first to discover Australia.—Marco Polo's description of the Southern Land.—Early expeditions of the Spanish, the Dutch, the French, and the English.—Dirk Hartog discovers the western coast of Australia.—Commodore Tasman.—Captain Cook visits Australia.—Van Couver explores the southern coast.—Captain Tobias, and Captain Furneaux, visit Australia and Van Diemen's Land.—Cook's second visit.—D'Entrecasteaux and Bligh follow him.—Australia designated a penal Settlement.—Captain Phillip establishes the colony.—Its settlement begins.—Bass and Flinders explore the coasts.—John Oxley maps the land.—Captain Sturt's discoveries in the interior.—Allen Cunningham sets out to explore the country.—Sir T. L. Mitchell's expedition; his misfortunes in the interior desert, and his discovery of Australia Felix.—The discoveries of Captain Stokes, Mr. Tyre, Mr. Dixon, Strzelecki, and the squatters.—Dr. Leichhardt lost in the interior.

---

### PENNOD III.

Deheubarth Cymru Newydd.—Terfynau ac eangder y drefedigaeth.—Ymddangosiad dinas Sydney—y prif adeiladau, eglwysydd, capelydd, &c.—sefydliadau llenyddol, celfyddydol, a dyngarol—y farchnad—y gorfforaeth a'r cyngor trefol—yr ariandai—yr argraffwasg drefedigaethol—milwyr a heddwysion—y parc a'r gerddi cyhoeddus—y tai berwi a masnach gwêr—gweithfeydd, &c.—y gwahanol enwadau crefyddol—cyllid, trosglwyddiadau &c.—moesau y dinasyddion.—Siroedd, trefydd, a phoblogaeth y drefedigaeth.—Swyddi mwyaf hynod.—Y sefydliadau yswatiol.—Hinsawdd, iachusrwydd, a hirhoedledd y trigolion.—Y gwahanol grefftwyr a'u cyflwr.—Anifeiliaid, cynnyrchion, &c.—Pwy a ddylai ymfudio, a phwy ni ddylai.—Cyfaddasrwydd y Cymry i ymfudo.

### PENNOD IV.

Prif-ffyrdd Deheubarth Cymru Newydd.—Golwg ymadawol ar Sydney.—Desgrifiad o Paramatta, Windsor, yr afon Hawkesbury, &c.—Ansawdd y tir a'r cnydau cyffredin.—Ei chyfaddasrwydd i gynhyrchu gwin.—Tymmor hau a medi. Cêr hwsmonaeth.—Ychain yn llafurio.—Y dull o gau tir yn feusydd.—Pa fodd y mae y sefydlwr i gael tir.—Gwerthiad cyhoeddus tir y goron.—Cynllun y llywodraeth, a'i ffaeliad.—Gosodiad tiroedd dan ardreth.—Yr anfantais o brynu tir y goron.—Y perygl i'r sefydlwr newydd gael ei dwyllo.—Pa fodd y gall y dynan tlawd gael tir.—Ymddyddan rhwng yr awdwr a hen sefydlwr arall.—Llongyddiaeth eang Sydney.—Ei chymundeb â'r sefydliadau eraill.—Prisiau ymborth.—Cynnyrchion y drefedigaeth.—Dull gwael o amaethu.—Sefydliad Boyd Town, a'i sylfaenwr.—Claddfa Sydney.—Etholiadau dinasol.—Llifeiriaint.—Seirff Awstralia.—Cŵn Sydney.—Direidi cŵn a chathod gwylltion, &c.—Y morgrug a'r *mosquitos*.—Iachusrwydd yr hinsawdd.—Lliosogrwydd y Pabyddion yno—seiri, llifwyr, &c.—Y dull o adeiladu “perthdai,” a'u dodrefnu.—Arferion teuluaid.—Buarthau a thai allan.—Arloesi a chau tiroedd.—Ceffylau Awstralia.—Y cynfrodorion.

### CHAPTER III.

New South Wales.—Boundaries and extent of the colony.—Appearance of the city of Sydney—the chief buildings, churches, chapels, &c.—literary, artistic, and humane institutions—commerce—the town council and corporation—the banks—the colonial press—soldiers and police—the park and the public gardens—the boiling houses and the tallow trade—workhouses, &c.—the various religious denominations—revenue, trade &c.—morals of the citizens.—Counties, towns, and population of the settlement.—Most notable offices.—The squatter settlements.—Climate, health, and longevity of the inhabitants.—The various tradesmen and their condition.—Animals, products, &c.—Who should emigrate, and who should not.—The fitness of the Welsh for emigration.

### CHAPTER IV.

The highways of New South Wales.—A departing view of Sydney.—Description of Paramatta, Windsor, the Hawkesbury river, &c.—Quality of the land and the common crops.—Its suitability for producing wine.—The sowing season and harvest. The tools of husbandry.—Ploughing with oxen.—Enclosing land in fields.—How the settler obtains land.—Public sale of crown land.—The scheme of government, and its failings.—Levying rates on land.—The disadvantage of buying crown land.—The risk of deception for the new settler.—How the poor man can obtain land.—A conversation between the author and another former settler.—The considerable shipping of Sydney.—Its commerce with the other settlements.—Food prices.—The products of the settlement.—Poor methods of cultivation.—The settlement of Boyd Town, and its founder.—Sydney Cemetery.—Municipal elections.—Floods.—Australian snakes.—The dogs of Sydney.—The depredations of dogs and wild cats, &c.—The ants and the mosquitoes.—Healthiness of the climate.—Roman Catholics numerous there—carpenters, sawyers, &c.—The method of building “bush houses,” and their furnishing.—Family customs.—Farmyards and outhouses.—Clearing and fencing of the land.—The horses of Australia.—The aborigines.

PENNOD V.

Y sefydliadau yswatiol.—Newcastle a Maitland.—Cilfach Moreton.—Morpeth, Clarence Town, Raymond Terrace.—Porth Stephan.—Tiroedd ar osod am dri swllt yr erw, a chludiad trosodd am ddim.—Marchogwyr Awstralia.—Desgrifiad o fintai yswatiol a'r fugeilfa.—Llwyddiant bugeiliaid a'u cyfoethogiad.—“Helyntwyr y berth.”—Dim arian bathol yn treiglo yn y berth bell.—Magu a chneifio defaid.—Trin geifr.—Cyflogau presennol.—Cludiad llafurwyr, crefftwyr, &c., trosodd yn rhad.—Cynnorthwyo ymfudwyr tlodion gan eu plwyfydd.—Cyflwr cysurus bugeiliaid Awstralia.—Buchesau, a ffermydd gwartheg.—Llosgi porfeydd.—Magu ceffylau.—Amddifadrwydd ysbrydol yr yswatwyr.—Codiad cyflogau, a diffyg gweision a morwynion, &c.

---

PENNOD VI.

Darlith Mr. Schilling ar gloddio aur.—Cyflead daearyddol mynyddoedd Awstralia, a'u cyfansoddiad mwnyddol.—Gorweddle yr aur. Y gwahanol fathau o gloddiadau. Desgrifiad o gloddfeydd Deheubarth Cymru Newydd a Phorth Phylip—y Turon a Mynydd Aleksander.—“Can'pwys aur y Dr. Kerr.”—Y dull o chwilio am aur, cloddio, a golchi aur mewn crydau, &c.—Ennilliadau y cloddwyr.—Nodiadau.—Gwobr y dyn du a ddarganfyddodd y “maen aur.”—Cadw gwyliau Nadolig yn Awstralia.—Dwfr afiach.—Priodasau y cloddwyr.—newyddion diweddaf o Sydney.

---

CHAPTER V.

The squatter settlements.—Newcastle and Maitland.—Moreton Bay.—Morpeth, Clarence Town, Raymond Terrace.—Port Stephen.—Land for lease at three shillings an acre, and free conveyance.—Horsemen of Australia.—Description of the squatting class and the pastures.—The graziers succeed and prosper.—“Bush-rangers.”—No cash used in the remote bush.—Breeding and shearing sheep.—Keeping goats.—Current wages.—Labourers, tradesmen, &c. carried over cheaply.—Poor emigrants assisted by their parishes.—The comfortable position of shepherds in Australia.—Cattle herds, and cattle farms.—Burning pastures.—Breeding horses.—The spiritual poverty of the squatters.—The rise of wages, and the lack of servants and maids, &c.

---

CHAPTER VI.

Mr. Schilling's lecture on gold digging. Geographical location of Australian mountains, and their mineral composition. Gold deposits. The different kinds of excavation. Description of the diggings in New South Wales and Port Phillip—the Turon and Mount Alexander.—“Dr. Kerr's hundredweight of gold.”—The methods of finding gold, digging, and washing gold in cradles, &c.—The diggers' earnings.—Notes.—The reward for the black man who discovered the “golden stone.”—Christmas festivities in Australia.—Unhealthy water.—Diggers' weddings.—recent news from Sydney.

---

PENNOD VII.

Taith i'r cloddfeydd.—“Y Simplon Awstralaidd.”—Y dull o yru ychain yn Awstralia.—Golygfeydd a pheryglon y ffordd.—Dyffryn Clwyd.—Pentref Soffala a'i boblogaeth ryfedd.—Bathurst a'r sir.—Darganfyddiad cyntaf yr aur.—Dinas Ophir.—Barn Humboldt am famgroth (*matrix*) aur.—Yr holl Fynyddoedd Gleision yn euog.—Darganfyddiadau Stutchbury, Murchison, Smith, Clarke, a Hargreaves.—Y “cynhwrf euraidd,” neu y “clefyd aur.”—Dynion o bob gradd a sefyllfa yn ymruthro i'r cloddfeydd.—Y cloddwyr yn diystyru awdurdod y goron, a'r llywodraethwyr yn cymeryd braw—Caniatâu trwyddedau i'r cloddwyr.—Y lleoedd tebycaf i gael aur ynddynt.—Y prif gloddfeydd.—Summerhill, Cainc Meroo, Braidwood ac Aralfen, Ceunant Bell, Cainc Louisa, Cainc Pepper, y Turon, Bryn Ration, Tuena, Ophir, &c.—Pa fodd i adnabod a phrofi aur.

PENNOD VIII.

Y ffordd o Sydney i Melbourne yn cael ei desgrifio. Darluniad o brifddinas Porth Phylip—heolydd, adeiladau, addoldai, &c.—Yr Yarra-Yarra, William's Town, a Geelong.—Gellibrand a Hesse ar goll.—Y mân drefi taleithiol.—Maint a phoblogaeth Porth Phylip.—Hanes y “dyn gwyllt o'r coed.”—Mr. Bateman yn cael tir gan y brodorion.—Prydferthwch a ffrwythlonrwydd y drefedigaeth.—Tystiolaeth sefydlwyr.—Desgrifiad o ansawdd a hinsawdd y wlad.—Poblogaeth, cynnyrchion, trosglwyddiadau, &c.—Nodweddiad y trefedigion.

PENNOD IX.

Mordaith i Awstralia Ddeheuol.—Adelaide; ei sefyllfa, adeiladau, lleoedd addoliad, &c.—Trefydd taleithiol.—Maintioli, ffrwythlonrwydd, a hinsawdd y drefedigaeth.—Cloddfeydd copr mawr Burra-Burra.—Poblogaeth, cynnyrchion, trosglwyddiadau, &c.—Cyflogau crefftwyr a gweithwyr.

CHAPTER VII.

Journey to the diggings.—“The Australian Simplon.”—The method of driving oxen in Australia.—Scenery and hazards of the road.—The Clyde Valley.—The village of Sofala and its strange population.—Bathurst and the county.—The first discovery of gold.—The city of Ophir.—Humboldt's opinion on the matrix of gold.—The whole of the Blue Mountains gold-bearing.—The discoveries of Stutchbury, Murchison, Smith, Clarke, and Hargreaves.—The “gold rush,” or the “gold fever.”—Men of every rank and station rush to the goldfields.—The diggers scorn the authority of the crown, and the government takes fright—Licences granted to the diggers.—The most likely places to find gold.—The chief goldfields.—Summerhill, Meroo Creek, Braidwood and Araluen, Bell's Creek, Louisa Creek, Pepper Creek, the Turon, Ration Hill, Tuena, Ophir, &c.—How to recognize and test gold.

CHAPTER VIII.

The road from Sydney to Melbourne described. Description of the capital of Port Phillip—roads, buildings, houses of worship, &c.—The Yarra-Yarra, William's Town, and Geelong.—Gellibrand and Hesse lost.—The small provincial towns.—Area and population of Port Phillip.—The story of the “wild man of the forest.”—Mr. Bateman acquiring land from the natives.—The beauty and fertility of the colony.—The testimony of settlers.—Description of the quality and climate of the country.—Population, products, imports and exports, &c.—Character of the settlers.

CHAPTER IX.

The voyage to South Australia.—Adelaide; its situation, buildings, places of worship, &c.—Provincial towns.—Size, fertility, and climate of the colony.—The great copper mines of Burra-Burra.—Population, products, imports and exports, &c.—Wages of tradesmen and labourers.

PENNOD X.

Afon Alarch, neu Swan River.—Ei sefyllfa a'i maintioli.—Ansawdd y tir a'i gynnyrchion, hinsawdd, &c.—Poblogaeth, trosglwyddiadau, cynnyrchion, &c.—Sylfaeniad y drefedigaeth.—Y sefydlwyr cyntaf yn cychwyn allan.—Siomedigaeth a dyoddefiadau yr ymfudwyr cyntaf. Hynodrwydd coed Awstralia.—Ffaeliad y drefedigaeth hon, a'r achos.—Nodweddiad moesol y trefedigion.

PENNOD XI.

Meusydd aur Victoria.—Eu darganfyddiad.—Clunes, Ballarat, y Gainc Ddefn, Mynydd Siomedigaeth.—Cloddfeydd enwog Mynydd Aleksander.—Cyflogau yn dra uchel.—Desgrifiad rhyfedd o “dref aur” Ballarat gan ymwelwr.—Bwthyn cynnyrchiolwyr ei mawrhydi, &c.—Golygfeydd hwyrol yn y dref aur.—Cadw Sabboth yn y cloddfeydd.—Bwyta mil o ddefaid dydd.—Lladratta pridd euraidd, a chosb lleidr, &c.—Dynion wedi eu codi o dlodi i gyfoethogrwydd mawr mewn ychydig wythnosau.—Enlliadau hynod rhai o'r cloddwyr.—Anhwylysdra a thralod meistriaid am weision, morwynion, a gweithwyr.—Effeithiau y “clefyd aur” ar drigolion Melbourne a Geelong.—Pawb yn myned i'r cloddfeydd.—Hyd y fordaith, taliadau, &c.

CHAPTER X.

Swan River.—Its location and size.—Quality of the land and its products, climate, &c.—Population, imports and exports, products, &c.—Establishment of the colony.—The first settlers set out.—Disappointment and sufferings of the first immigrants. Peculiarity of Australian timber.—Failure of the colony, and the cause.—Moral character of the settlers.

CHAPTER XI.

The Victorian goldfields.—Their discovery.—Clunes, Ballarat, Deep Creek, Mount Disappointment.—The famous goldfields of Mount Alexander.—Wages very high.—A marvellous description of the “gold town” of Ballarat by a visitor.—The cottage of her majesty's representatives, &c.—Evening scenes in the gold town.—Keeping the Sabbath in the goldfields.—Eating a thousand sheep a day.—Stealing gold-bearing soil, and punishment of the thief, &c.—Men raised from poverty to great wealth in a few weeks.—Remarkable profits of some of the diggers.—Inconvenience and difficulties experienced by masters with servants, maids, and labourers.—Effects of the “gold fever” on the inhabitants of Melbourne and Geelong.—Everyone goes to the diggings.—Length of the voyage, fares, &c.

## AWSTRALIA A'R CLODDFEYDD AUR

---

### PENNOD I.

#### DESGRIFIAD CYFFREDINOL.

Y MAE Awstraliasia yn cynnwys amryw ynnysoedd mawrion, y benaf o ba rai, a'r fwyaf yn y byd, yw Awstralia, neu Dir y De. Adnabyddid hi gynt wrth yr enw *Holland Newydd*; ond yn awr, y mae yr enw hwn yn cael ei gyfyngu i'r rhan orllewinol o'r ynys, i'w gwahaniaethu oddiwrth Ddeheubarth Cymru Newydd. Y mae yr ynys fawr hon yn gorwedd rhwng 10° 42' a 39° a 9' o ledred deheuol, a 113° a 153° 47' o hydred dwyreiniol. Môr India sydd yn golchi ei glenydd gogleddol a gorllewinol, yr Eigion Mawr Tawelog yn ymdreiglo ar ei hochr ddwyreiniol, a Môr y De yn ymestyn rhyngddi a'r pawl. Y mae yr ynys tua dwy fil (2000) o filltiroedd o hyd, o'r gorllewin i'r dwyrain; ac yn fil a saith gant (1,700) o filltiroedd o led, o Benrhyn Efrog, yn y gogledd, hyd Bentir Wilson yn y de, ac yn cynnwys rhyw dair miliwn (3,000,000) o filltiroedd ysgwâr, yn un darn cyfan o dir. Nid yw ond tua deng milltir a phedwar ugain (90) oddiwrth *Papua*, neu Guinea Newydd, a chant ac ugain (120) milltir o Wlad Van Diemen; mil a chant a hanner (1,150) o filltiroedd o Zealand Newydd; saith mil a phum cant (7,500) o filltiroedd o Benrhyn Gobaith Da; a phedair mil ar ddeg a phum cant (14,500) o filltiroedd o Loegr.

## AUSTRALIA AND THE GOLDFIELDS

---

### CHAPTER I.

#### GENERAL DESCRIPTION.

AUSTRALASIA includes several large islands, the chief of which, and the largest in the world, is Australia, or the South Land. It was formerly known by the name “New Holland”; but now, this name is limited to the western part of the island, to distinguish it from New South Wales. This great island lies between 10° 42' and 39° and 9' of southern latitude, and 113° and 153° 47' of eastern longitude. The Indian Ocean washes the northern and western shores, the Pacific Ocean rolls along its eastern side, and the Southern Ocean stretches between it and the pole. The island is about two thousand (2000) miles in length, from the west to the east; and one thousand, seven hundred (1,700) miles in width, from the Cape York, in the north, to Wilson's Promontory in the south; it is some three million (3,000,000) square miles in area, and is one continuous piece of land. It is only about ninety (90) miles from “Papua”, or New Guinea, and a hundred and twenty (120) miles from Van Diemen's Land; one thousand, one hundred and fifty (1,150) miles from New Zealand; seven thousand, five hundred (7,500) miles from the Cape of Good Hope; and fourteen thousand, five hundred (14,500) miles from England.



Yn awr, tybiwn ein bod wedi cychwyn ar y fordaith fawr, yn y *Great Britain* os mynwch, neu ryw lefiathan arall a ddarperir i dramwyo yr eigion; wedi marchogaeth tonau heilltion y Werydd, cefnu ar y Penrhyn, a chroesi Môr ymchwyddol y De, ac yn canfod bryniau euraidd “Ophir” yn dechreu glasu o bell—y mae ein gobeithion cymysgld yn ymloewi fel y mae y peiriant nerthol yn gweithio, yn ymdrechu, yn tuchan, ac yn rhincian am y porthladd dymunedig. O’r diwedd, yr ydym yn nesâu at oror Awstralia Orllewinol, a Sefydliad y *Swan River*, â’n llygaid anesmwyth yn rhedeg ar hyd y ceulenydd serth, tàl, a danneddog sydd yn ysgyrnygu ar y môr, o Bentir y Llewes hyd Angorfa y Brenin Sior, tua’r dwyrain; a thua’r gogledd, hyd y Pwynt Serth gyferbyn âg Ynys Dirk Hartog—y rhengau o fryniau isel a elwir y *Darling Range* yn eu hamddiffyn o’r tu cefn. Y mae y mynyddoedd hyn tua phymtheg neu ugain milltir o lan y môr. Ar y cyfan, y mae morlanau Awstralia yn debycach i ororau Affrica nag i un rhan arall o’r byd. Ond er nad yw ei harfordir wedi ei fylchu gan lawer o gilfachau, y mae yn cynnwys digon o angorfeydd cysgodol i lochesu llongyddiaeth gynnyddol y trefedigion.

Now, let us suppose we have started out on the great voyage, in the “Great Britain”<sup>a</sup> if you wish, or some other leviathan fit to traverse the ocean; after riding the salty waves of the Atlantic, rounding the Cape, and crossing the swelling Southern Sea, to spy the golden hills of “Ophir” appearing in the distance—our muddled hopes clarifying as the powerful engine does its work, striving, groaning and creaking its way to the beckoning port. Finally, we approach the coast of Western Australia, and the Swan River Settlement, as our restless eyes sweep over the steep, high, jagged banks which bite into the sea, from Cape Leeuwin to King George’s Sound, in the east; and in the north, to Steep Point opposite Dirk Hartog’s Island—the rows of low hills called the Darling Range guarding them from behind. These mountains are about fifteen or twenty miles from the coast. On the whole, the shores of Australia are more like the coasts of Africa than any other part of the world. But though its coastline is not broken by many inlets, it possesses enough sheltered anchorages to harbour the settlers’ growing fleet.

---

<sup>a</sup> An early iron-hulled steamer, in its day the biggest steamer in the world, which first put to sea in 1843.

Ymhellach i'r dwyrain, y mae y glenydd yn cilio yn wysg eu cefnau i roi lle i'r môr gymeryd math o ysgubiad trofaog am amryw gannoedd o filltiroedd i ffurfio y ceugant mawr a elwir y *Great Australian Bight*. Yma nid oes dim i'w weled ond morfëydd isel, tywodlyd, diffrwyth, ac anghyfanneddol yn ymdaenu o'n blaen cyn belled a goror Awstralia Ddeheuol. Ond y mae yr olygfa yn cyfnewid fel yr ydym yn tynu at Dir Eyre—math o orynys yn gorwedd rhwng y *Bight* a Chilfach Spenser, ac yn cael ei therfynu tua'r gogledd gan gadwen o fryniau a elwir y *Gawler Range*. O'r tu blaen iddynt, canfyddwn fath o rosydd uchel yn ymlarieiddio i amrywiaeth hyfrydol o fryn a phant, ac yn ymagor i ddyffrynoedd dyfredig a ffrwythlawn tua'r môr. Ar lanau dwyreiniol y golff hwn hefyd, tuag ugain milltir i'r tir, y mae rhes o fryniau a elwir y *Flinders* yn rhedeg o'r golwg tua'r gogledd. Yr ydym yn gadael Gorynys Efrog, megys gwastadedd ëang wedi ei fritho â deadellau o ddefaid a thwmpathau grugog, o'r tu ol i ynys *Kangaroo*. Y mae yr ynys hon tua 95 milltir o hyd, a 23 o led, ac yn teilyngu mynydyn o sylw, o herwydd bod rhai ymfuwdwyr wedi sefydlu yma. Math o roudir twmpathog yw canol y wlad, yn disgyn i lyniau heilltion. Y prif sefydle yw *Kingscote*, yn Nghilfach Napean, ar duedd y gogledd-ddwyrain. Y mae y trigolion yn byw ar bysgota, dal moch y môr, cadw defaid, a thrin tir; ac yn ymhyfrydu yn holl brydferthwch anian, ac yn iechyd a hoewder yr awyr buraf yn y byd.

Further to the east, the coastline falls back, giving way to the sea, which takes a sweeping curve for several hundred miles to form the great gulf called the “Great Australian Bight”. There is nothing to be seen here but low, sandy, infertile, and desolate marshes stretching before us as far as the border with South Australia. But the scenery changes as we draw near Eyre Land—a kind of peninsula lying between the Bight and the Spencer Gulf, and bounded to the north by a chain of hills called the Gawler Range. In front of them, we can see a kind of high moorland softening into a pleasant alternation of hill and hollow, and opening into well-watered, fertile valleys towards the sea. On the eastern shores of this gulf as well, a series of hills called the “Flinders” runs north from our view, about twenty miles inland. We leave behind the Yorke Peninsula, like a broad plain dotted with flocks of sheep and heath-covered hillocks, to find Kangaroo Island. This island is about 95 miles long, and 23 wide, and deserves a moment's notice, because some emigrants have settled here. The centre of the island is a kind of hilly moorland, descending to brackish pools. The main settlement is Kingscote, in Nepean Bay, on the north-eastern coast. The inhabitants get their living from fishing, catching dolphins, keeping sheep, and cultivating the land; and they enjoy all the beauty of nature, and the healthiness and vitality of the purest air in the world.

Yr ydym bellach yn ngolwg Tiriogaeth Victoria, neu Borth Phylip, lle y cyferfydd miloedd o ymfydwyr o bob gwlad, gan ddwyn eu ceibiau, eu rhawiau, a'u crydau tua'r cloddfeydd aur. Y mae anian yma yn gwisgo gwedd mwy amrywiog nag yn un parth arall o Awstralia. Draw y canfyddwn drumiau y mynyddoedd Grampaidd a Phyreneaid, wrth groesi safnau yr afonydd sydd yn rhychu eu bronau ac yn ffrwythloni eu godrau dyffrynog. Y mae yma ddiagonedd o diroedd da rhagorol (heb eu beichio â rhenti a threthi trymion) i'r bugail a'r hwsmon llafurus gael bywiolaeth gysurus arnynt, a chasglu cyfoeth, a gadael y cloddfeydd aur yn llonydd. Tua'r dwyrain, gwelir penau pigynog yr Alpau Awstralaidd yn gwisgo eu coronau o eira oesol, ac yn dysgleirio yn nglesni digwmwl yr wybren. Y mae y mynyddoedd hyn yn sefyll tua 60 neu 70 milltir o lan y môr. Y brodorion a'u galwant Mynyddoedd Warragong. Y maent yn ffurfio cadwen o glogwyni dyrchafedig cyn uchod arall a'r Wyddfa. Tuhwnt iddynt, i'r gogledd, y mae y Mynyddoedd Gleision a'r *Liverpool Range*. Er nad ydynt mor uchel, y maent yn hynod o serth a chreigiog, ac yn cael eu hollti yn agenfeydd anferth, yn gwahanu clogwyni aruthrol a gynnelir i fyny gan graig-furiau unionsyth, yn dringo allan o waelodion ceunentydd dychrynlyd, ac yn ymsythu mewn gorwychedd arswydus tua'r entrych. Rhyngddynt a'r môr, y mae dyffryndir coediog, a sodlau yspardunog y mynyddoedd yn tramwy trwyddo yma a thraw. Yn godrau y mynyddoedd hyn y mae y cloddfeydd aur sydd yn tynu cymaint o sylw y byd. Tu cefn iddynt y mae math o rosydd a gwaenydd uchel, yn fil neu ddwy o droedfeddi uwch na gwyneb y môr, yn ffurfio porfeydd defaid rhagorol, ond yn ymsuddo yn raddol tua chanol y wlad i wastadedd isel, syth, a diffaeth.

We are now in sight of the Colony of Victoria, or Port Phillip, where thousands of emigrants from many lands come together, carrying their spades, picks and cradles to the goldfields. Here nature wears a more varied aspect than in any other part of Australia. Over there we can see the ridges of the Grampian and Pyrenees mountains, crossing the mouths of the rivers which etch their slopes and fertilize their valleyed feet. Here there is plenty of excellent land (unburdened by rents and heavy taxes) from which the shepherd and the industrious farmer can get a comfortable living, and accumulate wealth, leaving aside the goldfields. To the east, the sharp peaks of the Australian Alps can be seen, wearing their crowns of perpetual snow, and sparkling in the cloudless blue sky. These mountains are situated about 60 or 70 miles from the coast. The natives call them the Warragong Mountains. They form a chain of elevated crags twice as high as Snowdon.<sup>b</sup> Beyond them, to the north, are the Blue Mountains and the Liverpool Range. Though not so high, they are remarkably steep and rocky, and split into huge fissures, separating prodigious cliffs held up by vertical walls of rock, rising from the bottoms of frightening ravines, and shooting up in dreadful splendour to the firmament. Between them and the sea, there are wooded lowlands, the spurred heels of the mountains passing through them here and there. At the feet of these mountains are the goldfields which draw so much of the world's attention. Behind them are a kind of high moors and meadows, one or two thousand feet above sea-level, making excellent grazing land for sheep, but sinking gradually toward the centre of the country into a low, flat, desert plain.

---

<sup>b</sup> In Caernarvonshire, Wales' highest mountain, 1,085m.

Nid oes yn Awstralia un mynydd tanllyd yn cynneu, ond y mae safnau llawer o losgfalau diffoddedig i'w cael yn y *Liverpool Range*, tua'r deheu, ar ochr orllewinol yr afon Glenelg. Y mae Mynydd Wingen yn dangos gradd uchel o boethni mewnlol—pŷg mwylol yn ymferwi allan, ac ager brwmstanaidd yn dianc drwy agenau y graig. Y mae yn amlwg fod yr elfen nerthol hŏno, a fu unwaith yn codi y mynyddoedd hyn o'r gwraidd,—yn eu rhwygo yn lynoedd dyfnion, ac yn eu hollti i fyny yn greigiau fforchog, yn parhau i fudlogi yn nghilfŷydd y ffyrnau tanddaearol. Y mae y mynyddoedd hyn yn oludog o fwnau a metteloedd; megys, aur, copr, haiarn, plwm, ac alcan (*tin*), a meusydd gwerthfawr o lo yn gladdedig rhyngddynt a'r môr, yn enwedig yn nghymydogathau Afon Hunter ac Afon Alarch; a chan fod yr holl fynyddoedd yn ymwasgu at lanau y môr, y mae eu cylfleusrwydd yn ychwanegu llawer at eu gwerth. Yn wir, cybelled ag y mae ymchwiliad eto yn cyrhaedd, y mae holl gyfoeth, ffrwytholrwydd, a phrydferthwch Awstralia wedi eu casglu gan natur at fin y môr, a'i holl gynnyrchion yn barod i'w cludo ymaith. Yn ol tystiolaeth Syr Thomas Mitchell, y Cadben Sturt, ac ymchwiliwyr eraill, y mae perfedd y wlad yn fwy diffaeth o'r bron nag anial mawr Sahara, ac yn ymledu yn un gwastadedd ęangfawr, crasboeth a charegog, wedi ei godi yma ac acw yn lluwchfŷydd o dywod, heb un llanerch glas yn unman, na llecyn o ddwfr i loewi ei wyneb llosgedig, oddigerth ambell gors o heli, yn cael ei lleibio yn wancus gan y tywottir sychedig oddiamgylch. Ac er bod Awstralia, ar y cyfan, yn dwyn arweddiad mwy cyfandirol nag un rhan o Ewrop, yn ofer y chwiliwyd, hyd yma, am yr afonydd cryfion, y rhaiadrau byddarol, y moroedd o ddyfroedd canoldirol, a'r ymherodraethau o goed caudadfrig ac anhygyrch sydd yn delweddu cyfandiroedd yr Hen Fyd a'r Newydd. Nid oes yn holl gefnwlad Awstrallia, o'r braidd, un corff parhaus o ddwfr croew teilwng o'r enw *Llyn*; ond y mae yr holl gasgliadau o ddyfroedd croew canoldirol yn debycach i gronfeydd naturiol—yn cael eu gorlenwi ar wlaw, ac yn rhedeg yn hyspion ar sychder, neu yn troi yn gorsydd a mawnogydd siglenog. Nid yw y llŷn pedolog a nodir ar y *map*, i'r gogledd i Gilfach Spensere, fel *Lake Torrens*, ond siglen anferth o heli, weithiau bron yn sych, a phryd arall yn ymchwyllo dros ei glanau, ac yn ymarllwys yn gefnllif afonog i'r golff, gan gludo i lawr goedydd yn eu crynswth, â'r fath wmbredd o brysgwydd, ag a'i gwna yn debyg i wig nofiannol. Er hyny, y mae Llyn Aleksandrina, drwy yr hwn y

There are no active volcanoes in Australia, but the craters of many extinct volcanoes are found in the Liverpool Range, to the south, on the western side of the river Glenelg. Mount Wingen shows a high degree of internal heat—mineral pitch boiling out, and sulphurous steam escaping through fissures in the rock. It is evident that that mighty element, which once raised these mountains from their roots,—rupturing them to form deep lakes, and cleaving them into broken rocks, continues to smoulder in the narrows of the subterranean furnaces. These mountains are rich in minerals and metals; such as, gold, copper, iron, lead, and tin, and valuable fields of coal are buried between them and the sea, especially in the neighbourhoods of the Hunter River and the Swan River; and because all the mountains press close to the coast, their accessibility adds greatly to their value. Indeed, as far as exploration has so far ascertained, all the wealth, fertility, and beauty of Australia has been collected by nature by the edge of the sea, with all its products ready to be transported away. According to the testimony of Sir Thomas Mitchell, Captain Sturt, and other explorers, the interior of the country is altogether more desolate than the great Sahara desert, and spreads out in one vast plain, blazing hot and rocky, lifted here and there into sand-dunes, with not a green glade anywhere, nor a patch of water to vitalize its scorched surface, apart from the occasional brackish bog, lapped up greedily by the arid sands around. And although Australia, on the whole, bears a more continental aspect than any part of Europe, in vain, so far, has been the search for the great rivers, the deafening falls, the seas of inland water, and the empires of close-topped and inaccessible woods which characterize the continents of the Old World and the New. There is in all the Australian hinterland scarcely any permanent body of fresh water deserving of the name “lake”; rather all the confluences of fresh water in the interior are more like natural reservoirs—overflowing with the rain, and running dry in drought, or turning into boggy swamps and marshes. The horseshoe-shaped lake marked on the map, to the north of Spencer Gulf, as “Lake Torrens”, is no more than a huge salt-water bog, sometimes almost dry, and at other times overflowing its banks, and emptying itself as a riverlike torrent into the gulf, carrying down whole trees, and such an abundance of brushwood, that it looks like a floating forest. Nonetheless, Lake Alexandrina, through which the River Murray flows to the sea, is a fine patch of water, about 27 miles

mae yr Afon Murray yn rhedeg i'r môr, yn llain deg o ddwfr, tua 27 milltir o hyd a 23 milltir o led; ond yn rhy fâs i lestri mawr ei fordwyo, a'r cysylltiad rhyngddo a'r môr yn gul iawn a pheryglus. Y mae yn groew yn ei ben uchaf, ond yn troi yn hallt tua 'r môr. Y mae yn dal cysylltiad â chorff llai o ddwfr hallt a elwir Llyn Albert, ac â chainc hir o heli, a adnabyddir fel Llyn Coorong. Y mae y llyniau hyn yn tynu ein sylw oblegid eu hagosrwydd at, a'u cysylltiad â dinas Adelaide, prif dref Awstralia Ddeheuol, yr hon sydd yn sefyll ar ddau fryn o geryg calch, a ffrwd achlysurol y Torrens yn llifo rhyngddynt.

long and 23 miles wide; though too shallow for large vessels to navigate, and its connection to the sea very narrow and treacherous. It is fresh at its higher end, but becomes brackish towards the sea. It is connected with a body of salt-water called Lake Albert, and with a long briny arm of the sea, known as Lake Coorong.<sup>c</sup> These lakes command our attention on account of their proximity to, and connection with the city of Adelaide, the principal town of South Australia, which stands on two limestone hills, with the occasional stream of the Torrens flowing between them.

---

<sup>c</sup> The Coorong.

Y mae rhan fawr o Awstralia (tumewn i'r trofanau) yn anial diafonydd, ond y mae nifer mawr o ffrydiau ffrwythlonawl yn rhedeg o'r mynyddoedd desgrifiedig tua'r dwyrain a'r de. Y fwyaf o honynt oll yw yr Afon Murray, yr hon sydd yn tarddu ar lechwedd orllewinol yr Alpau Awstralaidd, yn rhedeg gan mwyaf o'i hynt tua'r gorllewin, ac yna yn troi i'r deheu ac yn ymarllwys i Forgant *Encounter*, ar ol taith o fil a dau cant (1,200) o filltiroedd,<sup>1</sup> yn ystod yr hon y mae yn derbyn dyfroedd lliaws o ffrydiau teyrngedol, yn benaf casgliadau y *Murrumbidgee*, y *Lachlan*, a'r *Darling*. Ar ei hymuniad â'r *Murrumbidgee*, y mae tua thri chant a hanner (350) o droedfeddi o led, ac o ddeuddeg i ugain troedfedd o ddyfnder; ond islaw ei chydifeiriad â'r *Darling*, y mae, mewn rhai manau, yn ddau cant a hanner (250) o latheni o led. Afon araf iawn yw, yn ymlithro o hanner milltir i filltir a thri chwarter yr awr, ac yn rhedeg rhwng ceulenydd uchel; ond, bryd arall, y mae y torlenydd yn cilio filltir neu ddwy i'r tir, ac yn gadael gwaelottir allwyfol (*alluvial*) ffrwythlawn ar ymyl y dwfr. Y mae rhan o'r Murray yn gyfaddas i agerfordwyaeth, ond y mae ei genau yn fâs a pheryglus. Prif afonydd yr oror ddwyreiniol yw y *Shoalhaven*, yr *Hawkesbury*, yr *Hunter*, yr *Hastings*, y *McLeay*, y *Clarence*, y *Richmond*, a'r *Brisbane*. Y mae yr *Hunter* yn ddau can' (200) milltir o hyd, ac yn fordwyol â llongau bychain am 50 milltir i fyny i'r wlad. Y mae y *Richmond* yn fordwyol am 70 milltir. Ond y mae holl afonydd Awstralia yn ddarostyngedig i lifogydd disymwth, ac yn myned yn isel iawn ar sychder. Y mae eu ceinciau uchaf yn debycach i gornentydd achlysurol nag i ffrydiau tryflwyddol. Ar wlawogydd trymion, y maent yn chwyddo yn gefnllifoedd arswydus; ond ar hin sych, y maent yn debyg i gefnffyrdd caregog, yn troi yma ac acw trwy byllau o ddwfr sefyll; ac ar dymmorau o hir sychder, y mae eu rhedfeydd isaf yn debycach i gadwyni sarffog o lyniau llimpaidd, nag i afonydd o ddwfr rhedegog. Er nad yw y rhan breswylledig o Awstralia yn wlad wedi ei dyfrhau yn dda (yn ol dychymyg Cymro, yr hwn sydd wedi ymgynnefino â'r fath radlonedd Ddwyfol o ddwfr gartref) tystir gan y rhai sydd wedi bod yn gwladychu dros flyneddau lawer yn y drefedigaeth, bod yno ddigon o'r "elfen fywydol" i gyfarfod pob gwir anghen.

<sup>1</sup> Y mae ei hyd yn ymddibynu ar y tymmor. Yn ystod y tymmor sych, y mae ei cheinciau uchaf yn rhedeg yn hyspion am ddau cant neu dri o filltiroedd. Weithiau, y mae yn bymtheng mil (15,000) o filltiroedd o hyd.

A great part of Australia (within the tropics) is a riverless desert, but a great many fertile streams run from the mountains described above to the east and the south. The greatest of them all is the River Murray, which arises on the western slopes of the Australian Alps, flows westward for most of its course, and then turns to the south and empties into Encounter Bay, after a journey of one thousand, two hundred miles,<sup>1</sup> during which it receives the waters of a host of tributary streams, chiefly the confluences of the Murrumbidgee, the Lachlan, and the Darling. At its junction with the Murrumbidgee, it is about three hundred and fifty (350) feet wide, and from twelve to twenty feet deep; but below its confluence with the Darling, it is, in some places, two hundred and fifty (250) yards wide. It is a very slow river, creeping along at a rate of half a mile to a mile and three quarters an hour, and running between high banks; but, sometimes, the banks are cut away into the land for a mile or more, leaving a fertile alluvial bed beside the water. Part of the Murray is suitable for navigation by steamboat, but its mouth is shallow and dangerous. The principal rivers of the eastern seaboard are the Shoalhaven, the Hawkesbury, the Hunter, the Hastings, the McLeay, the Clarence, the Richmond, and the Brisbane. The Hunter is two hundred (200) miles long, and navigable by small vessels for 50 miles upstream. The Richmond is navigable for 70 miles. But all the rivers of Australia are subject to sudden flooding, and become very low in drought. Their higher reaches are more like intermittent brooks than perennial streams. With heavy rains, they swell in dreadful torrents; but in dry weather, they are like stony roads, winding here and there through pools of stagnant water; and in seasons of drought, their lower courses are more like serpentine chains of smooth lakes than rivers of running water. Although the settled part of Australia is not a well-watered land (to the eye of a Welshman, who is accustomed to a Divine blessing of water at home) those who have been settled in the colony for many years attest to there being enough of the "vital element" to meet every genuine need.

<sup>1</sup> Its length depends on the season. During the dry season, its highest branches run dry for two or three hundred miles. Sometimes, it is fifteen thousand (15,000) miles in length.

Am gynnyrchion tyfiannol Awstralia, sylwyd bod y coedydd, yn gyffredin, yn hynod o agored, a'r prenau yn wasgaredig—dim ond dau neu dri yn tyfu ar erw o dir, yr hyn sydd yn rhwyddineb mawr i'w driniogaeth. Ond mewn rhai manau y maent yn ffurfio llwyni cysgodfawr; tra y cyfarfyddir â darnau mawr o wlad, weithiau, wedi eu gorchuddio â dyrslwyni o brysgwydd corachlyd, a elwir gan y trefedigion yn “*scrwb*.” Y mae y coed yn leision trwy y flwyddyn, ac yn gynnwysedig, gan mwyaf, o folwydd (*gum-trees*), rhoswydd, ffynidwydd, palmwydd,<sup>1</sup> coed acasia, &c., gyda rhywiogaeth o redyn a danadl yn tyfu i faintioli “preniau coedwig.” Ychydig a wyddys am lysieuaeth Awstralia. Dywedir bod y glaswellt, oddigerth yn y dyffrynoedd ffrwythlonaf, yn bur deneu a bras, ond yn hynod o “laethog a phesgol.” Peth tra hynod yw nad oes yma un math o yd gwyllt, na “choed ffrwythau,” ond a drawsgludwyd o wledydd eraill; ond y mae pob planigyn estronol, o'r bron, a blenir neu a heuir yma, yn llwyddo yn rhagorol.

Regarding the vegetable products of Australia, it should be noted that forests, in general, are singularly open, and the trees scattered—no more than two or three growing on an acre of land, which greatly facilitates their management. But in some places they form dense groves; while one sometimes meets with great tracts of land covered with thorny thickets of dwarf bushes, called by the settlers “scrub.” The forest is green throughout the year, and is comprised, for the most part, of gum-trees, rosewood, pine-trees, palms,<sup>1</sup> acacias, &c., with species of ferns and nettles<sup>d</sup> growing to the size of forest trees. Little is known of the Australian flora. It is said that the grass, outside of the most fertile valleys, is very thin and coarse, but most nutritious. It is remarkable that there is no kind of wild corn in the country, nor fruit-bearing trees, apart from those introduced from other countries; but almost every foreign plant sown or planted here thrives.

---

<sup>1</sup> Nid oes dim palmwydd yn ngororau deheuol yr ynys.

---

<sup>1</sup> There are no palms in the southern parts of the island.

<sup>d</sup> Probably the stinging tree, *Dendrocnide spp* .

Y mae neillduolrwydd hynod, hefyd yn perthyn i filyddiaeth ac ednogyddiaeth Awstralia. Yr anifel brodorol mwyaf yw y *Kangaroo*, neu y cangarw. Y mae y genedledd yn cynnwys llawer o rywogiaethau—rhai yn ddim mwy na llygod, rhai at faint cwn cyffredin, ac eraill dros ddwy lath o hyd, tra y cloddir gweddillion o rywiogaethau diflanedig (o ymysgaroedd) y ddaear mwy nag ychain. Ymhlith anianyddion, y maent yn adnabyddus fel y dosbarth hwnw o *detholion* (neu greaduriaid yn maethu eu rhai bach ar y deth) a elwir y *codolion*, am fôd y fam yn cario ei theulu ieuanc mewn côd ar ei bol, ac yn dangos tynerwch a serch mawr tuag atynt. Peth hynod iawn yw nas gall yr anifeiliaid rhyfeddol a diniweid hyn na rhedeg na cherdded, o herwydd hyd mawr eu haelodau ôl, a byrdranodedig eu pawenau; ac, er hyny, y maent yn gyflym iawn ar eu traed, gan eu bod yn ymborthi ar laswellt, llyisiau, a deiliach; a rhai rhywogaethau, megys yr *apossimiaid*, y rhai nad ydynt yn fwy na llygod Ffrengig, a fwytant bryfed, wyau, a mân ymlusgiaid. Y mae yr *apossimiaid* yn lliosog iawn mewn rhai parthau o'r wlad. Ond yr anifeilyn rhyfeddaf yn Awstralia, os nad yn yr holl fyd, yw y *dyfrdwrch* neu yr *adarbig* (*ornithoryncus*)—math o greadur bach dwyelfenog, gydâ chorff anifel a phen a thraed aderyn y dwfr, ac yn dodwy. Y mae yn byw mewn dyfroedd tawelog, yn hel ei ymborth yn mysg y merllys, ac yn trychu ei ymguddfeydd o dan ddorlenydd cysgodog. Cyfrifir cig y cangarw yn fwyd blasus, iachus, a llesol. Dywedir yn gyffredin mai y *tango*, neu y ci gwyllt, yw y bwystfil mwyaf dinystriol a pheryglus yn Awstralia; ond y mae Mr. Melville, yr hwn sydd wedi bod yn trigiannu dros ugain mlynedd yn y trefedigaethau hyn, yn crybwyll bod bugeiliaid Gwlad Van Diemen yn cario eu gynau yn gyffredin, a bod eu meistriaid yn arfer talu iddynt hyn a hyn y pen am yr holl gŵn gwylltion, teigrod, cythreuliaid, eryrguryllod, a chigfrain, a laddant. Dywedir bod cythreuliaid pedwartroedol Awstralia yn fwystfilod hynod o wrthun a diriaid. Y sylwad cyffredin yw, nad oes yn y wlad hon un anifel brodorol yn cnoi ei gil, nac un aderyn cynhanol yn canu. Pa fodd bynag, y mae yma adar o blwad ardderchog—gwyrrddion, cochion, a gwynion; gwahanol rywogaethau y *parrot* yn ysgrechian ac yn lolian yn y coedydd. Y mae ysplander plu y colomenod yn syndod i'r sefydlwr ar ei ddyfodiad yma. Y mae adar paradwys yn preswyllo y gororau gogleddol. Y mae yma amryw adar ysglyfaethus, elyrch duon, a digon o frain ac adar môr. Y mae yma amryw fathau o wenyn; ond nid oes gan yr un

The fauna and birdlife of Australia are also most peculiar. The largest native animal is the Kangaroo. The genus includes many species—some no larger than mice, some the size of common dogs, and others over six feet tall, while the remains of extinct species bigger than oxen have been dug from the earth. Among naturalists, they are known as that class of mammals (or creatures which nourish their young at the teat) called the marsupials, because the mother carries her young family in a pouch (Latin *marsupium*) on her belly, and shows great tenderness and affection toward them. A very remarkable thing is that these strange, harmless animals can neither run nor walk, due to the great length of their hind limbs, and their uncommonly short paws; and, despite this, they are very fast on their feet, since they feed on grass, herbs and foliage; and other species, like the opossums, which are no larger than rats, eat worms, eggs, and small reptiles. The opossums are very numerous in some parts of the country. But the strangest animal in Australia, if not in all the world, is the water mole or *ornithoryncus*<sup>e</sup>—a kind of small amphibious creature, with the body of an animal and the head and feet of a waterbird, and laying eggs. It lives in still waters, and gathers its food among the waterweeds, and carves out its shelters under shady banks. The meat of the kangaroo is reckoned to be a tasty, healthy, and beneficial food. It is commonly said that the dingo, or the wild dog, is the most destructive and dangerous beast in Australia; but Mr. Melville, who has lived for over twenty years in these colonies, mentions that the shepherds of Van Diemen's Land generally carry their guns, and that their masters are in the habit of paying them a certain amount per head for all the wild dogs, tigers, devils, eaglehawks, and ravens they kill. It is said that the four-footed devils of Australia are singularly odious and wretched beasts. The common observation is, that there are no cud-chewing animals in this country, nor any song-birds. However, there are birds of superb plumage—green, red, and white; various species of parrot screech and chatter in the forests. The splendour of the pigeons' feathers is a marvel to the settler on his arrival here. Birds of paradise inhabit the northern coasts. There are various birds of prey, black swans, and plenty of crows and seabirds here. There are several kinds of bee here; but none of them has a sting. The mosquitoes are very numerous and vexatious in the

---

<sup>e</sup> The platypus.



o honynt golyn. Y mae y gwibed yn dra nifeiriog a phoenydiol yn yr iseldir. Y mae geneugoegion, nadroedd, ac ysgorpionau hefyd yn lliosog. Y mae yr aderyn organawl yn difyru y goedwig â'i gerdd. Dywedir bod yr afonydd yn heigio digonedd o bysgod, a bod gororau y môr yn nodedig am westrys rhagorol, berdys, a chregyn-gleision. Y mae pysgodwriaeth moelrhoniaid a morfilod yn dwyn elw nid bychan yma i'r sawl sydd yn meddu arian ac ysbryd i anturio yn y fasnach.

Desgrifir cynfrodorion Awstralia yn gyffredin megys y radd isaf o farbariaid: eu lliw yn ddu, eu pryd yn wrthun, a'u cyrff yn afluniaidd; ac yn hollol groes i'r hyn a ganfyddir ymhlith agos yr holl dylwythau eraill o ddynolryw, dywedir bod y merched yma yn llawer hyllach na'r meibion; ond y mae llawer o le i ammheu bod anwybodaeth, rhagfarn, a chasineb, yn eu dangos yn llawer gwaeth yn ngolwg trefedigion treisgar nag yr ymddangosent i lygad dyngarol. Yn wir, dywed Mr. Melville, ac eraill, eu bod yn ddynion tal, chwim, ystumgar, ac yn rhagori ar Ewropëaid yn nghyflymder eu golwg, eu clyw, a'u harogliad; a'u bod yn rhyfeddol o fedrus gyda'r *waewffon*, y *boomerang*, a'r bicell bren, pa un bynag ai mewn brwydr, neu ar hynt hela. Cydsynir eu bod yn llawer mwy diniweid na'r cyffredinolrwydd o farbariaid, a'u bod, gan mwyaf, yn bobl gyfeillgar, lletygar, a chymwynasgar, er eu bod wedi goddef llawer o anghyfiawnder, trais, a chreulondeb, oddiar ddwyllaw estroniaid rheibus a'u gweision lladronllyd a llofruddiog, y rhai, yn lle ceisio eu gwareiddio a'u Cristionogi, a'u saethent fel brain neu fwystfilod drwg, neu a'u croesawent yn fradus i'w gwenwyno wrth yr ugeiniau.<sup>1</sup>

<sup>1</sup> Bernir eu bod yn prysuro i ddarfod. Pan gymerwyd meddiant o Ynys Van Diemen yn 1803, cyfrifwyd cynfrodorion y wlad hōno yn *gan mil* (100,000) o nifer; ond yn 1848, yn ol ymchwiliadau swyddol, nid oedd yr holl weddill a adawyd heb eu difrodi ond 13 o feibion, 22 o ferched, 5 o fechgyn, a 5 enethod! Gwel “*Melville’s Present State of Australasia* :” tudal. 345-370. “Pa fodd yr ymddygydd tuag atynt?” gofyna yr un awdur: “Yn waeth na thuag at gŵn neu fwystfilod rheibus,—eu hela o le i le, eu saethu, rhwygo eu teuluoedd oddiwrthynt—y fam yn cael ei chipio oddiwrth ei phlant i'w gwneyd yn aberth i chwant a chreulondeb ei chymydogion gwareiddiedig a Christianogol!” Ond nid ydynt mwy.

lowlands. Lizards, snakes, and scorpions are also plentiful. The organ bird<sup>f</sup> entertains the forest with its song. It is said that the rivers teem with fish, and the coasts are noted for excellent oysters, shrimp, and mussels. The hunting of seals and whales brings no little profit to those who have enough money and spirit to venture into the trade.

The aborigines of Australia are generally described as the lowest order of savages: black in colour, their appearance repellent, and their bodies misshapen; and quite contrary to what is seen amongst all other races of mankind, it is said that the females are much uglier than the males; but there is room to suspect that ignorance, prejudice, and hatred, make them appear much worse in the sight of hostile settlers than they appear to humane eyes. Indeed, Mr. Melville says, with others, that they are tall, agile, graceful people, surpassing Europeans in the acuteness of their sight, hearing, and sense of smell; and their remarkable skill with the spear, the boomerang, and the wooden lance, whether in battle, or at the chase. It is allowed that they are much more harmless than the generality of savages, and that they are, for the most part, a friendly, hospitable, and obliging people, though they have suffered a great deal of injustice, violence, and cruelty at the hands of rapacious foreigners and their thieving, murderous servants, who, instead of trying to civilize and Christianize them, shot them like crows or verminous beasts, or welcomed them treacherously to their own poisoning by the score.<sup>1</sup>

<sup>f</sup> The magpie.

<sup>1</sup> It is thought they are hastening to their extinction. When possession was taken of the Island Of Van Diemen in 1803, the aborigines of that land were reckoned at a *hundred thousand* (100,000) in number; but in 1848, according to official investigations, the total remnant left unharmed was no more than 13 men, 22 women, 5 boys, and 5 girls! See “*Melville’s Present State of Australasia* :” p. 345-370 [translated from the Welsh]. “How have they been treated?” asks the same author: “Worse than dogs or beasts of prey,—chased from place to place, shot, their families torn from them—the mother snatched from her children to make sacrifice to the lust and cruelty of her civilized Christian neighbours!” But they are no more.

Y maent wedi eu rhanu yn lliaws o fân lwythau annibynol, pob un dan arweiniad ei lywydd neu dywysog ei hun, ac yn hõni hawl i gyfran neillduol o'r wlad. Y mae pob llwyth yn cadw yn gyffredin o fewn y terfynau a nodwyd iddynt ar y coed (drwy gydsyniad y llwythau cymydogoethol), megys tir hela a physgota. Meddylir yn gyffredin mai ofer fyddai dysgwyl i greaduriaid crwydrol a segurlyd wneyd unrhyw waith; ond mewn papyr ar Awstralia a gyflwynwyd i'r senedd yn 1851, y mae adroddiad oddiwrth y llywodraethwr, yn mha un y dywed, “Y mae diffynwr cynnorthwyol y cynfrodorion ar yr Afon Murray wedi adrodd i mi yn ddiweddar eu bod yn Nghulfor *Encounter* wedi cael gwaith, yn ystod y cynauaf, gan un ar bymtheg ar hugain o wahanol sefydlwyr, ac iddynt fedi chwe' chant a chwech a thriugain (666) o erwau. Yn Strathalbyn, i un ar ddeg o sefydlwyr, y cynfrodorion a fedasant dri chant a phump (305) o erwau; yn Mynydd Barcer, i saith o sefydlwyr, medasant ddwy ar bymtheg a phedwar ugain (97) o erwau; ac ar yr Afon Hutt, i ddau sefydlwr, bymtheng erw.”

Teithiwr o Adelaide i'r ardal dde-ddwyreiniol a gymerwyd yn glaf ar y *Coorong*, a darfu ei holl ddarbobion; y cynfrodorion a adeilasant fwthyn iddo, a ddygasant iddo fwyd a dwfr, a'i porthasant â physgod, ac, wedi gweini arno lawer o ddyddiau, a hysbysasant ei gyflwr digymhorth i'r heddeidwaid, gan ba rai y symudwyd ef i'r sefyllfa yn Wellington, ac fel hyn yr achubwyd ei fywyd. Rhwng Nairne a Mynydd Barcer, y cynfrodorion a fuant yn foddion i ddiffodd perth-dân oedd yn bwgwth difa cnydau y sefydlwyr. O amgylch y llyn, yn agos i aberfa yr Afon Murray, gosodir y cynfrodorion ar waith gan y tyddynwyr defaid i ddiffoddi perth-danau, ac y maent yn ofalus i attal eu dygwyddiad. Yn Nghulfor *Encounter* y mae rhai o'r cynfrodorion yn gychwyr da, ac yn cael gorchwyl felly yn ystod tymmor pysgota morfilod. Mynegwyd i mi fod rhai o'r *liwbraod*, neu wragedd, yn gwneyd eu hunain yn wasanaethgar fel golchwragedd; ac yr oedd fy hysbyswraig yn siarad yn uchel am garedigrwydd un, yr hon a fuasai yn fammaeth i'w phlentyn.

Edrychwyd arnynt gyda dirmyg a ffieiddiad, am eu bod yn coginio llygod, nadroedd, geneugoegion, a phryfed genwair, ynghyd â phob bwyd drewedig a deflid allan gan y sefydlwyr boneddig; ond y mae hyn i'w briodoli yn benaf i'r ffaith nad yw y wlad, oddigerth lle y mae dan driniaeth gan y sefydlwyr, yn cynnyrchu o'r braidd ddim ffrwythau na gwreiddiau cyfaddas i fod yn ymborth i ddyn.

They are divided into a host of small independent tribes, each one under the leadership of its own chief or prince, and claiming rights to a particular portion of the country. Each tribes keeps generally within its own boundaries which are marked for them on the trees (by agreement with the neighbouring tribes), as hunting and fishing territories. It is commonly thought that it would be pointless to expect such nomadic, idle creatures to do any work; but in papers on Australia presented to the parliament in 1851, there is a report from the governor, in which he says, “The assistant protector of the natives on the River Murray has recently reported to me that they had got work in Encounter Bay, during the harvest, from thirty-six different settlers, and that they had gathered in six hundred and sixty-six (666) acres. At Strathalbyn, the aborigines gathered in three hundred and five (305) acres for eleven settlers; at Mount Barker, for seven settlers, the brought in ninety-seven (97) acres; and on the Hutt River fifteen acres, for two settlers.”

A traveller from Adelaide to the south-eastern district was taken ill on the Coorong, and all his provisions perished; the aborigines built a hut for him, and brought him food and water, and fed him fish, and, having ministered to him for many days, brought his helpless situation to the attention of the police, who moved him to station in Wellington, thus saving his life. Between Nairne and Mount Barker, the aborigines have been a means of extinguishing bush-fires which threatened to destroy the settlers' crops. Around the lake, near the mouth of the River Murry, the aborigines were put to work by the small sheep-farmers putting out bush-fires, and they were careful to prevent their occurrence. In Encounter Bay some of the aborigines are good boatmen, and are employed as such during the whaling season. I have been told that some of the “lubras”, or women, make themselves useful as washerwomen; and my informant spoke highly of the kindness of one, who had been nurse to her children.

They were looked upon with contempt and loathing, because they cooked mice, snakes, lizards, and worms, as well as any stinking food thrown out by the gentry of the colony; but that is to be attributed chiefly to the fact that the country, apart from where it is under cultivation by the settlers, produces scarcely any fruits or roots fit to be eaten by man.

Mewn gwlad mor äang ag Awstralia y mae hinsawdd y naill gŵr yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth dymheriant y cŵr arall. Y mae yr holl ynys yn llawer brytach na Chymru, ond y mae yr hinsawdd yn y trefedigaethau yn hynod o iach a hyfryd—yr awyr bur yn gwasgar iechyd, heineidd, cryfder, a hirhoedledd. Ond yn y pharthau gogleddol a chanoldirol y mae yn boeth iawn—yn rhy boeth i gyfansoddiad Ewropäaidd, oddigerth ar llyn y môr, lle y mae yr awel fywus yn lliniaru tanbeidrwydd yr haul trofanol.

Wedi ysgrifenu yr erthygl ragflaenol, bu yr awdwr mor ffodus a chyfarfod yn ddamweiniol â Sais cyfrifol o swydd Derby, llysiuwr proffesedig a naturiaethwr, yr hwn a fu yn teithio llawer yn Awstralia rai blyneddau yn ol: a chan fod y boneddwr hwn yn sylwedydd craff, yn ymchwiliwr manwl, ac yn ddyn yn meddu gwybodaeth helaeth, cymerodd yr ymddyddan canlynol le rhyngddynt:—

G . A oes llawer o dir da yn Awstralia?

A . Oes, yn agos i'r môr, er bod yr holl ganoldir yn ddiffieithwch anghyfanneddol. Y mae llawer o honi yn wlad dda odiaeth, er nad yw ei thyfedigaeth mor oludog, mae'n wir, a'r hyn a welais fy hun mewn rhai parthau eraill o'r byd, megys yn Neheubarth America.

G . A welsoch chwi yn Awstralia olygfeydd mor ffrwythlawn a godidog ag a ganfyddwn ni yma?<sup>1</sup>

A . Do, llawn cystal a'r dyffryn ardderchog yna, a golygu ei ffrwythlonrwydd; heb son am goedydd talach, a mynyddoedd uwch i fawreddu yr olygfa yno.

G . Pa faint o Awstralia Ddeheuol a ystyriwch yn ddiffrwyth?

A . Dichon fod dwy ran o dair o'r wlad hòno naill ai yn hollol ddiffrwyth, neu yn gwbl ddiwerth i'r sefydlwr. Er hynny y mae yno ddigonedd o dir ffrwythlawn i gynnal poblogaeth annhraethol liosocach nag a gynnelir yn Mrydain.

G . Pa beth sydd yn gwneyd cymaint yn ddiffrwyth?

A . Sychder yr hinsawdd a natur y tir. Y mae yno lawer iawn o dywottir sychlyd, a pheth *craig*. Ond y mae y rhan fwyaf wedi ei orchuddio â *scrwb*.

G . I ba beth y gallem gyffelybu y *scrwb* yma?

A . I fyrddiynau o berthi isel yn ymledu ac yn ymddyrysu yn eu gilydd yn mhob cyfeiriad dros gannoedd o filltiroedd o wlad. Bum yn teithio ugeiniau o filltiroedd ar hyd *scrwb*, ac yn aml yn gorfod tori fy ffordd trwyddo â chyllell goed.

G . Pa blaniogion a gyfansoddant y *scrwb*?

In a land as broad as Australia the climate in one corner differs greatly from that in another. The whole island is much warmer than Wales, but the climate in the colonies is remarkably healthy and pleasant—the pure air spreads health, vitality, strength, and longevity. But in the northern and central parts it is very hot—too hot for a European constitution, except on the coast, where the refreshing breeze assuages the scorching heat of the tropical sun.

After writing the foregoing article, the author was fortunate enough to meet by chance a reputable Englishman from Derbyshire, a professional botanist and naturalist, who travelled a great deal in Australia several years ago: and as this gentleman was a keen observer, a meticulous investigator, and a man possessed of abundant knowledge, the following conversation took place between them:—

Q . Is there much good land in Australia?

A . Yes, near the sea, although the entire inland region is an uninhabited desert. Much of it is excellent country, though its vegetation, it is true, is not as rich as that I have seen for myself in several other parts of the world, such as North America.

Q . Did you see in Australia scenery as fertile and splendid as that which we see here?<sup>1</sup>

A . Yes, fully as good as that superb valley, as regards its fertility; not to mention taller trees, and higher mountains to glorify the scenery there.

Q . How much of South Australia do you consider infertile?

A . Perhaps two thirds of that country is either wholly barren, or quite worthless to the settlers. Nevertheless there is ample fertile land to support a much greater population than is supported in Britain.

Q . What makes so much land infertile?

A . The dry climate and the nature of the land. There is a great deal of sandy desert, with some rock. But the greater part is covered with scrub.

Q . To what can we liken this “scrub”?

A . To a multitude of low bushes spreading and entangling each other in all directions over hundreds of miles of land. I have travelled scores of miles through scrub, and often had to cut my way through with a machete.

Q . Which plants make up the scrub?

<sup>1</sup> Golwg ar Ddyffryn Clwyd o ben un o fryniau Iâl.

<sup>1</sup> A view on the Vale of Clwyd from one of the hills of Yale.

A . Y mae yn cael ei wneyd i fyny gan mwyaf o rywiogaeth gorachaid o'r *eucalyptus* , a math o fanwydd a elwir yr *epacris* , rhywiogaeth fechan o'r myrtwydd, darn debyg i'n grug ni, ac yn hynod o hardd pan fo yn ei flodau cochion a gwynion.

G . Oni ellid dwyn y tiroedd hyn i driniaeth drwy arloesi y *scrwb* ?

A . Na ellid, oblegid ar sychdir diwerth y mae yn tyfu.

G . I ba beth ynte y rhoddir y *scrwb* ar dân?

A . I ddinystrio y myrddiynau o bryfed poenydiol a fegir ac a lochesir ynddo. Neu y mae yn cymeryd tân yn ddamweiniol wrth losgi y porfëydd. Gwelais lawer gwaith leiniau o fflam yn ymdaenu dros gannoedd o filltiroedd ysgwar, ac unwaith goedwig ardderchog yn ffaglu i benau y mynyddoedd. Nid oes, mewn rhai parthau o'r wlad, braidd bren heb fwy neu lai o ôl tân arno.

G . I ba ddyben y llosgir y porfëydd?

A . I wneyd iddynt *dewychu* . Ar ol y tymmor sych y mae yr holl wlad yn debyg i sofflydd Lloegr ar ol y cynauaf.

G . Wrth son am goedwigoedd, a gyfarfuasoch chwi â rhai o fforestwydd Lloegr yn tyfu yno?

A . Naddo, er fy holl ymchwil, â chymaint ag un pren o haniad Brytanaidd. Y mae yno rai rhywiogaethau o'r ffynidwydd; ond ni cheir yr un rhywiogaethau yn ein gwlad ni. *Eucalyptus* yw y genedledd liosocaf yno. Nid oes dim dail arnynt ond yn unig pan f'ont yn bur ieuainc, ond y mae math o *gonion* gleision arnynt trwy'r flwyddyn, yr hyn a barodd i rai gamddywedyd fod coedydd Awstralia bob amser mewn dail.

G . A oes yn Awstralia goed da at adeiladu a gwneyd dodrefn?

A . Oes, megys y 'rhisglyn llinynog,' a chedrwydd, agos cystal a *mahogany* yr India Orllewinol. Y mae yr olaf, nid yn unig yn hynod o barhaus, ond yn meddu lliw tywyll prydferth. Y mae y molwydd yn goed da iawn.

G . A oes rhywbeth godidog yn llysieuaeth Awstralia?

A . Oes; y mae yno liosogrwydd mawr o'r llysiuau prydferthaf, ac y mae y blodau gwylltion yn dra harddwych. Ond nid oes yno ddim o faes-flodau Prydain, na briallen na llygad y dydd. Yr oedd boneddiges o'm cydnabod yn ysgrifenu oddiyno yn ddiweddar, ei bod wedi rhoi dau swllt yr wns am hâd llygaid y dydd, 'i gofio yr hen wlad,' a'i bod yn cael digon o waith eu cadw yn fyw.

G . O ba beth y mae porfëydd Awstralia yn gynnwysedig?

A . It is made up mostly of a dwarf species of the *eucalyptus* , and a kind of tiny bush called the *epacris* , a small species of myrtle, somewhat like our heather, and remarkably beautiful when its red and white flowers bloom.

Q . Could not these lands be brought under cultivation by clearing the scrub?

A . No, because they grow on dry, worthless land.

Q . To what purpose then is the scrub set on fire?

A . To destroy the multitudes of troublesome vermin that breed and shelter in it. Or it catches fire accidentally when the pastures are burnt. Many times I have seen lines of flame spreading over hundreds of square miles, and once a magnificent forest blazing to the mountain tops. In some of parts of the country, there is hardly a tree without some trace of fire on it.

Q . To what end are the pastures burnt?

A . To thicken them. After the dry season the whole country is like the stubble of England after the harvest.

Q . Speaking of forests, did you find any of the forest trees of England growing there?

A . No, despite all my searching, not so much as a single tree of British provenance. There are several species of pine-tree; but the same species are not found in our country. *Eucalyptus* is the most prolific genus there. There are no leaves on them except when they are very young, but they have a kind of green cone on them throughout the year, which has caused some to report incorrectly that Australian trees are always in leaf.

Q . Is there good timber in Australia for building and making furniture?

A . Yes, such as the "stringybark," and cedars, almost as good as the mahogany of the West Indies. The latter is not only remarkably durable, but has a beautiful dark colour. The gum-trees make very good wood.

Q . Is there anything of note amongst the flora of Australia?

A . Yes; there is a multitude of the most beautiful plants, and the wildflowers are quite gorgeous. But there are none of the meadow flowers of Britain, neither primrose nor daisy. A lady of my acquaintance wrote from there recently, that she had paid two shillings an ounce for daisy seed, "to remind me of the old country," and it was a good deal of work for her to keep them alive.

Q . Of what do the Australian pastures consist?

A . Wrth natur y maent i gyd yn gynnwysedig o laswellt y cangarŵ, yr hwn a ddesgrifir fel yn hynod o deneu, am ei fod yn tyfu yn dyffiau ystoliog, heb byth ffurfio tywarchen, ond gadael tyllau noethion rhwng y clympiau. Er hyny, y mae yn hynod o faethol i bob anifel porthiannus.

G . Oni ellid hau gwelltydd Brytanaidd yno gyda llawer o fantais?

A . Nid ydynt yn llwyddo yno yn gyffredin, oddigerth mewn dolydd isel, neu diroedd y gellir eu hireiddio yn dda, yr hyn sydd yn annichonadwy ond mewn rhyw ychydig iawn o lanerchi, o herwydd sychder yr hinsawdd, a bod yr afonydd yn rhedeg gan mwyaf rhwng ceulenydd uchel; neu, mewn geiriau eraill, fod gwelyau afonydd Awstralia, gydâg ychydig iawn o eithriadau, yn rhy ddyfnion i ganiatâu iddynt ddyfrhau gweirgloddiau dyffrynol, oddigerth ar orlifiad, neu drwy alw i mewn gymhorth peiriannol. Ond dylwn grybwyll fod clofer gwŷn yn ffynu yn bur dda mewn rhai manau.

G . Os yw yr holl wlad yn cael ei chrino fel sofflydd cynauaf yn ystod y tymmor sych, yn mha le y mae yr anifeiliaid yn cael porthiant?

A . Gellir cynauafu glaswellt y cangarŵ fel gwair llesol; ond y maent yn gyffredin yn ei bori oddiar ei draed yn rheibus pan fo cyn grined a gwellt gwenith o ysgubor.

G . A ydych chwi yn barnu ei bod yn wlad fanteisiol i borthi anifeiliaid â'r hyn a alwn yn *gnydau gleision* ?

A . Nac wyf mewn un modd, ond yn union i'r gwrthwyneb. Y mae y maip yno naill ai yn ffaelu yn hollol, neu yn troi allan yn seilion iawn hyd yn nod mewn gerddi.

G . A ydyw hi yn wlad dda i lafurio?

A . Y mae rhai parthau yn dwyn cnydau toreithiog o yd.

G . A ydyw y cnydau yn dyoddef llawer oddiwrth sychder?

A . O! nac ydynt, am eu bod yn wastad naill ai yn addfed i'r cryman, neu wedi eu cael i mewn cyn y tymmor sychaf.

G . A fydd y cnydau yno weithiau yn cael eu hanmharu gan 'gafod,' deifiad, pryf, neu fellni?

A . Ni welais ddim o'r fath erioed yno: ac yr wyf yn credu bod sychni a phuredde yr awyr yn gwneyd y fath aflwydd yn annichonadwy.

G . A fydd locustiaid weithiau yn eu hanrheithio?

A . In its natural state it consists entirely of kangaroo grass, which is described as uncommonly thin, as it grows in tussocks, never forming turf, but leaving bare spaces between the clumps. Despite this, it is remarkably nourishing for all grazing animals.

Q . Could British grasses not be sown there to great advantage?

A . In general they do not thrive there, except in low dales, or land that can be well irrigated, which is possible only in a very few places, due to the dry climate, and the fact that the rivers flow between high banks; or, in other words, that the beds of Australian rivers, with very few exceptions, are too deep to permit the irrigation of valley meadows, except when they overflow, or by calling in mechanical aid. But I should mention that white clover grows very well in some places.

Q . If the whole country is dried up like harvest stubble during the dry season, from where do the animals get their feed?

A . Kangaroo grass can be harvested as wholesome hay; but they generally browse it at the base even when it is as dry as barn straw.

Q . Do you reckon it to be a good country for feeding animals what we call "green crops"?

A . Not at all, quite the contrary. Turnips either fail altogether there, or turn out very poorly even in gardens.

Q . Is it a good country for cultivation?

A . Some parts bear abundant crops of corn.

Q . Do the crops suffer much from the dry climate?

A . Oh! no, because they are always either ripe for the scythe, or already brought in before the driest season.

Q . Are the crops sometimes damaged there by mildew, blast, pest, or blight?

A . I never saw such a thing there: and I believe that the dry climate and purity of the air make such misfortunes impossible.

Q . Do locusts sometimes attack them?

A. Ni ddaethum o hyd i gymaint ag un locust o fewn y wlad; ond wedi dychwelyd adref, derbyniais lythyr oddiwrth gyfaill yn Awstralia, yn crybwyll am ymweliad haid o locustiaid â'r gymydogeath hòno, ac yn ychwanegu eu bod yn hulio holl barwydydd y tŷ, a'u bod yn eu hysgubo allan yn dryllau. Rhaid mai ymwelwyr hynod o ddeieithr oeddynt.

G. A ydych chwi yn barnu ei bod yn wlad dda i ddybenion garddwriaethol?

A. Y mae braidd yn rhy sych i'r garddwr lwyddo, oddigerth ar lanau yr afonydd, lle y mae y gerddi yn edrych yn dda; ond planigion trosglwyddedig o wledydd cynhes neu drofanol sydd yn llwyddo oreu, megys eurefyll (*orange trees*), gwinwydd, eirin gwlanog, &c. Y mae holl gynnyrchion tai brwd gyda ni yn ffynu yn dda yno yn yr awyr agored. Cludais yno fy hun amryw fathau o goed gwaliau tyner, y rhai y mae yn rhaid i ni eu cysgodi yn Lloegr rhag rhew nos, a daethant ymlaen yn rhagorol.

G. A oes dim rhew ac eira yn Awstralia?

A. Ni welais erioed eira yno ond ar leoedd uchel iawn; ond gwelais lawer gwaith gèn baryg bore yn gorwedd ar leoedd lled oernoeth. Gellwch gredu mai prin y gellid ei alw yn lasrew, gan nad yw yn anmharu dim ar blannigion trofannol.

G. Tybygwn nad ydych yn ystyried Awstralia mor gyfaddas i'r garddwr i godi y fath gnydau ag a dyfai efe yn Lloegr?

A. Nac ydyw, ar y cyfan. Er eglurhad, nid yw pytatws, er eu bod yn cael eu planu a'u codi yno bob mis trwy y flwyddyn, yn dyfod ymlaen yn llwyddiannus, ac am hynny y dygir cymaint o honynt yno o wlad Van Diemen, lle y mae yr hinsawdd yn oerach. Y mae pys gleision i'w cael yno trwy y flwyddyn, ond nid ydynt byth mor dda ag yn y wlad hon. Nid yw afalau yn tyfu yn dda yno, tra y mae eirin Mair (*gooseberries*), a grawn Corinth (*currants*), yn cwbl ffael.

G. A fydd yno gawodydd trymion o genllysg weithiau?

A. Ni welais erioed yno y fath genllysg dystrywiol ag a syrthiant yn aml yn Lloegr; nis gwn iddynt erioed niweidio y cnydau tyneraf, er eu bod cyn frased a phys pan ddisgynont a'r daranau.

G. A fydd ystormydd mawr o fellt a tharanau yn dygwydd yno ar amserau?

A. Clywais daranau llawer trymach yn Lloegr. Nid wyf yn meddwl fod y mellt yno mor arswydus a pheryglus.

G. A ydyw y wlad yn dyoddef llawer gan sychder?

A. I never came across a single locust in the country; but after returning home, I received a letter from a friend in Australia, mentioning the visit of a swarm of locusts to that neighbourhood, and adding that they completely covered the walls of the house, and they were sweeping them out in piles. They must have been very strange visitors.

Q. Do you judge it to be a good country for gardening purposes?

A. It is almost too dry for the gardener to succeed, except on the riverbanks, where the gardens look well; but plants introduced from warm or tropical lands thrive best, such as orange trees, vines, peaches, &c. All the produce of our hothouses flourishes in the open air there. I transported several kinds of tender wall-trees there myself, which we in England must protect from night frosts, and they came on capitally.

Q. Is there any frost and snow in Australia?

A. I never saw snow there except in very high places; but I saw many times a layer of morning frost lying on partly exposed places. You can be sure that it could scarcely be called black frost, for it does no harm to tropical plants.

Q. I suppose you do not consider Australia as suitable for the gardener to raise the kind of crops he grows in England?

A. No, on the whole. For example, potatoes, though they are planted and lifted every month throughout the year there, do not come on successfully, and it is for that reason that so many of them are brought there from Van Diemen's land, where the climate is colder. Green peas are available there throughout the year, but they are never as good as in this country. Apples do not grow well there, while gooseberries, and currants, fail altogether.

Q. Are there showers of hail there sometimes?

A. I never saw there such destructive hail as often falls in England; I do not know of it ever damaging the tenderest crops, though the stones are as fat as peas when they fall in thunderstorms.

Q. And do great thunderstorms occur there at times?

A. I have heard much heavier thunder in England. I do not think the lightning there is as dreadful and dangerous.

Q. Does the country suffer much from drought?

A . Y mae Deheubarth Cymru Newydd yn goddef mwy nag un o'r trefedigaethau eraill. Y mae llawer mwy o wlaw yn disgyn yn Awstralia Ddeheuol a Phorth Phylip.

G . A ydych chi yn ei hystyried yn wlad o hinsawdd dda?

A . Nid oes, fe allai, hinsawdd iachach neu hyfrytach yn y byd.

G . I ba fath o gyfansoddiadau y mae yn rhagori ar y wlad hon?

A . I ddynion nychlyd, byr eu gwynt, pesychlyd, a darfodedig. Y mae yr awyr yno yn tueddu yn fawr i'w hiachâu, i adnerthu eu natur, ac estyn eu hoes.

G . A oes yno ddim tymmorau afiachus?

A . Nac oes; y mae yr hin yno yn llawer mwy cyson neu reolaidd nag yw yma, a'r tywydd yn hyfryd trwy yr holl flwyddyn. Y mae gauaf Awstralia yn debyg i dywydd Mai gyda ni. Y mae yn wir fod gwres yr haf yno yn codi i radd pur uchel; ond dyoddefais fwy oddiwrth frydaniaeth yn Lloegr na dim a brofais yn Awstralia. Yno y mae purdeb yr awyr, a bywiogrwydd yr awel, yn galluogi dyn i sefyll llawer mwy o wres nag y dichon ei oddef yma, lle y mae yr awyr wedi ei gorlwytho â chymaint o leithni a thawch, fel y mae tês haf yn hynod o foglyd, lluddfawr, a nychlyd.

G . A oes dim annymunol yn nhywydd Awstralia?

A . Oes; y gwynt poeth sydd yn chwythu oddiar y tywodydd craslyd yn y canoldir, o flaen y tymmor gwlawog, ac yn parhau weithiau am wythnos neu naw niwrnod olynol, ond yn fynychach ddim ond deuddydd neu dri.

G . A yw yn boeth iawn?

A . Ydyw; fel pe tybiech eich bod yn sefyll wrth enau ffwrn. Y me yn crino y cwbl o'i flaen; bêm yn edrych ar blinigyn perffaith las yn y boreu, ac yn ei rwbio yn 'snisin' rhwng fy nwyllaw cyn nos.

G . A oes dim afiechyd a chlefydau yn Awstralia?

A . Pur ychydig; ond y mae llygad-glwyf a rhyddni yn lled gyffredin, ymhlith dyfodiaid yn enwedig.

G . Pa beth sydd yn eu hachosi?

A . Yr arfer ddrwg o gysgu allan, bwyta gormod o ffrwythydd, ac yfed yn anghymedrol.”

A . New South Wales suffers more than any of the other colonies. Much more rain falls in South Australia and Port Phillip.

Q . Do you consider it a land of good climate?

A . There is, perhaps, no healthier nor more pleasant a climate in the world?

Q . For what sort of constitutions is it superior to this country?

A . For the sickly, the short of wind, those with a cough, and the consumptive. The air there tends greatly to heal them, to restore there strength, and to extend their lives.

Q . Are there any unhealthy seasons there?

A . No; the climate there is much more constant or regular than it is here, and the weather is pleasant all year long. The Australian winter is like the weather in our May. It is true that the summer heat there rises to very high degrees; but I have suffered more from heat in England than any I experienced in Australia. There the purity of the air, and the liveliness of the breeze, enable one to stand much greater heat than can be tolerated here, where the air is saturated with so much moisture and vapour, that the summer heat is uncommonly stifling, inhibiting and irksome.

Q . Is there anything disagreeable about the weather in Australia?

A . Yes; the hot wind that blows off the scorched sands of the interior, before the rainy season, and sometimes continues for a week or nine days in a row, but more often only two or three days.

Q . Is it very hot?

A . Yes; as if you were to imagine yourself standing by the mouth of a furnace. It withers everything before it; I have looked at a perfectly green plant in the morning, and been rubbing it like “snuff” between my hands before night.

Q . Is there any illness or disease in Australia?

A . Very little; but sore eyes and diarrhoea are fairly common, especially among newcomers.

Q . What causes them?

A . The bad habit of sleeping outdoors, eating too much fruit, and drinking immoderately.”

## PENNOD II.

### DARGANFYDDIAD A GWLADYCHIAD AWSTRALIA.

DARGANFYDDIAD America, ar derfyn y bymthegfed ganrif, a dueddodd ddaeryddwyr Ewropëaidd i farnu y gallai fod rhyw gyfandir ëang heb ei ddarganfod yn y de, yn cyfateb i'r tir ar ochr ogleddol y ddaear. Wedi i Vasco de Gama ganfod y drwyfa heibio i Benrhyn Gobaith da, gosododd amryw o genedloedd arforol Ewrop wahanol anturiaethau ar droed i chwilio Môr y De. Cyn hyn, yn wir, yr oedd Marco Polo wedi nodi allan sefyllfa y “Tir Mawr Deheuol,” yn ol tystiolaeth y Chinëaid, ar ei ddarlun o'r byd. Y mae yn ddiddadl mai Chinëaid a ddarganfyddasant Awstralia gyntaf. Dywed Mr. Earp fod traddodiad i'r perwyl hwn ymhlith y cyndrigolion, a bod rhwyfau, a chelfi morwrol eraill, o wneuthuriad Chinëaidd, wedi cael eu darganfod yno y llynedd yn ddwfn-gladdedig yn y ddaear. Dywed y brodorion i'r ymwelwyr Chinëaidd gael eu llofruddio.

Heblaw darlen Marco Polo, y mae hen *fap* arall yn yr Amgueddfa Frytanaidd, wedi ei gofnodi yn 1542, yn arlunio gwlad fawr i'r de i Ynysoedd y Perlysiâu, dan yr enw Jafa Fawr, ac yn cyfateb mor gywir i luniad glanau gogleddol a gorllewinol Awstralia ag i arwain pawb a ymgynghora âg ef i benderfynu nas gallasai dychymyg gyfarwyddo y llaw a'i llinellodd allan, ond ei bod yn gweithredu oddiar wybyddiaeth sicr a darchwiliad. Y dirgelwch yw, pwy oedd yn meddu y fath wybodaeth ddaeryddol y pryd hwnw, a pha fodd y daeth o hyd iddi. Y mae yn amlwg fod yr Ysperiaid, yr Isellmyn, y Ffrancod, a'r Seison, wedi gwneyd ymgeisiadau i gael y cyfandir tybiedig hwn allan; ac er bod y ddwy genedl olaf ymhell o fod yn enwog “ar fôr pell” y pryd hyny, y mae y Ffrancod yn dadleu fod y mordwywr Ffrengig, Gonneville, wedi ymweled âg Awstralia yn 1504, tra y barna eraill mai Madagascar oedd y wlad a ddarganfyddodd ac a ddesgrifia.

## CHAPTER II.

### DISCOVERY AND SETTLEMENT OF AUSTRALIA.

THE discovery of America, at the end of the fifteenth century, disposed European geographers to believe that there could be some vast, undiscovered continent in the south, corresponding to the land in the northern half of the earth. After Vasco da Gama found the route past the Cape of Good Hope, the maritime nations of Europe instigated various expeditions to search for the Southern Sea. Before this, indeed, Marco Polo had marked out the location of the “Great Southern Land,” according to the testimony of the Chinese, on his picture of the world. It is incontrovertible that the Chinese were the first to discover Australia. Mr. Earp says that there was a tradition to that effect amongst the aboriginal inhabitants, and that oars, and other nautical equipment, of Chinese manufacture, was discovered there last year, buried deep in the earth. The natives say that the Chinese visitors were murdered.

Besides Marco Polo's picture, there is another old map in the British Museum, dated 1542, showing a great land to the south of the Spice Islands, under the name Great Java,<sup>8</sup> and corresponding so exactly in form to the northern and western coasts of Australia as to lead everyone who consulted it to decide that imagination could not have guided the hand with its outlines, but that it worked out of sure knowledge and exploration. The mystery is, who possessed such geographical knowledge at that time, and how it was acquired. It is evident that the Spanish, the Dutch, the French, and the English, had made attempts to find the supposed continent; and although the last two nations were far from famous “on the high seas” at that time, the French contend that the French navigator, Gonneville, had visited Australia in 1504, while others reckon that Madagascar was the country he discovered and described.

---

<sup>8</sup> “Java La Grande”.



Ymddengys mai yr Ysperiaid oedd y genedl Ewropeaidd gyntaf a ddarganfyddodd Awstralia. Wedi iddynt ymsefydlu ar ororau gorllewinol America Ddeheuol, anfonasant anturiaeth allan i chwilio am Dir y De, dan arweiniad Fernandez de Quiros, yr hwn a hwyliodd o Brazil, yn 1605, ac wedi darganfod amryw ynsoedd yn y Môr Tawelog, a gyrhaeddodd ryw dir a alwodd yn Awstralia, gan dybio ei fod yn rhan o'r "cyfandir mawr deheuol." Ond yr islywydd, Vaes de Torres, wedi ei ysgaru oddiarth y llyngesydd gan dymhestl, a gariodd ei ymchwiliad ymlaen yn annibynol, ac a hwyliodd drwy y gulfa sydd yn dwyn ei enw i Fôr Arafura. Torres oedd y cyntaf a haerodd mai ynys oedd Awstralia.

Dilynwyd yr Ysperiaid gan yr Isellmyn, pa rai a wnaethant lawer o ymdrech i chwilio y wlad newydd, yr hon a ddadguddiwyd iddynt tra yr oeddynt yn archwilio gororau Guinea Newydd, yn yr un flwyddyn ag yr hwyliodd De Quiros o Callao.

Y morlywydd Dirk Hartog a ddarganfyddodd yr holl oror orllewinol, ac a diriodd ar yr ynys sydd yn dwyn ei enw, yn 1616. Yn 1623, darganfyddwyd ynsoedd "Arnhem a Spielt," fel y camgymeriad y pryd hwnw arfordir gorllewinol Golff mawr Carpentaria.

Yn 1642, penderfynodd llywodraeth yr Iseldiroedd anfon y morlywydd Tasman allan unwaith yn rhagor i chwilio y "Tir Mawr Anadnabyddus," ac i gael allan pa cyn agosed yr oedd yn ymgyrhaedd at y pawl deheuol. Hwyliodd allan o Batavia ar y 14eg o Awst; ac ar y 4ydd o Dachwedd, darganfyddodd yr ynys a elwir yn Wlad Van Diemen, oblegid iddo ei henwi felly er anrhydedd i Antony Van Diemen, llywydd Batavia.

It appears that the Spanish were the first European nation to discover Australia. After they settled on the western coast of South America, they sent out an expedition to search for the South Land, under the leadership of Fernandez de Quiros, who sailed from Brazil, in 1605, and after discovering various islands in the Pacific Ocean, reached a certain land he called Australia, supposing it was part of the "great southern continent." But the vice-commodore, Vaes de Torres, having been separated from the fleet by a storm, carried on his exploration independently, and sailed through the strait which bears his name into the Arafura Sea. Torres was the first to assert that Australia was an island.

The Spanish were followed by the Dutch, who made many attempts to find the new land, which was disclosed to them while they were exploring the coasts of New Guinea, in the same year as De Quiros sailed from Callao.

Commodore Dirk Hartog discovered the entire western coast, and landed on the island which bears his name, in 1616. In 1623, the islands of "Arnhem and Spielt," were discovered, the western shores of the great Gulf of Carpentaria being mistaken for islands on that occasion.

In 1642, the government of the Netherlands resolved to send captain Tasman out once more to seek the "Great Unknown Land," and to find out how closely it reached to the south pole. He sailed out of Batavia on the 14th of August; and on the 4th of November, he discovered the island which is called Van Diemen's Land, because he named it so in honour of Antony Van Diemen, governor of Batavia.

Wedi i gan' mlynedd gyfan fyned heibio, anfonwyd y Cadben Cook, yn y llong “*Endeavour*,” i chwilio arfordir Holland Newydd, yn Awst, 1769: ac ar y 19eg o Ebrill, 1770, tiriodd y mordwywr enwog hwn yn *Botany Bay*, o ba le yr hwyliodd ar hyd yr oror i Awstralia Ogleddol, ac a diriodd drachefn mewn cilfach a alwodd efe yn *Bustard Bay*, o herwydd yr heidiau o gyffelyb adar a drigiannant y lle. Oddiyma hwyliodd ddwy radd ymhellach i'r gogledd; a chan iddo fethu cael dim dwfr ar ei wahanol deithiau i'r tir, galwodd y gilfach y glaniodd ynddi “Yr Angorfa Sychedig.” Ymhellach i'r gogledd, daeth at enau afon, lle y tarawodd y llong ar graig suddedig o gwrel, ac oddiwrth y ddamwain hon galwodd y fangre, “Afon yr Ymgais” (*Endeavour River*), tra yr arosodd yma i adgyweirio y llestr. Un diwrnod, mynegwyd iddo, gan forwr dychrynedig, gyda difrifwch mawr, fod y cythraul wedi ymddangos ar y lan yn rhith barilyn galwyn, ond ei fod yn gwisgo cyrn ac esgyll, ac yn ymlusgo yn araf trwy y glaswellt. Wedi hyny, cafwyd allan mai math o ystum fawr eithaf adnabyddus yn Awstralia oedd y cythraul tybiedig. Gyda llawer o anhawsdra a pherygl, dirwynodd Cook ei ffordd yn ol ac ymlaen rhwng creigiau suddedig a thraethellau Culfor torres—un o'r lleoedd mwyaf enbydus i'w fordwyo yn y byd—ac a gymerodd feddiant o un o'r mân ynisoedd a orweddant rhwng Awstralia a Guinea Newydd, gan ei galw, “*Possession Island*.” Cymerodd hefyd feddiant o holl oror ddwyreiniol Awstralia yn enw ei benadur, Siôr y Trydydd, gan alw y wlad yn “Ddeheubarth Cymru Newydd,” o herwydd ei fod yn ei gweled yn debyg i “hen fro Gwalia.”

Rywbryd wedi ymadawiad Cook, ymwelodd Van Couver âg arfordir Awstralia, ar ei ffordd i America Ddeheuol, ac a roddodd yr enw “Angorfa y Brenin Sior” i'r gilfach hõno.

After fully a hundred years had passed, Captain Cook was dispatched, in the ship “*Endeavour*,” to seek the coast of New Holland, in August, 1769: and on the 19th of April, 1770, this famous navigator landed in Botany Bay, from whence he sailed along the coast to Northern Australia, and landed again in a cove he called “*Bustard Bay*,” on account of the swarms of similar birds which inhabited the place. From here he sailed two degrees further north; and because he failed to find any water on his various excursions on land, he called the cove in which he landed “*Thirsty Sound*.” Further to the north, he came to the mouth of a river, where the ship struck a submerged coral rock, and from this accident he called the place, “*Endeavour River*,” while he stayed there to repair the vessel. One day, he was informed, by a frightened sailor, with great seriousness, that the devil had appeared on the shore in the form of a one-gallon cask, but wearing horns and wings, and creeping slowly through the grass. Later, it was discovered that the supposed devil was a kind of large bat very familiar in Australia. With much difficulty and hazard, Cook twisted his way back and forth between the strands and sunken rocks of Torres Strait—one of the most perilous places in the world for navigation—and took possession of one of the tiny islands that lie between Australia and New Guinea, calling it, “*Possession Island*.” He also took possession of the whole eastern coast of Australia in the name of his sovereign, George the Third, calling the country “*New South Wales*,” because it appeared to him similar to the vales of South Wales.

Some time after the Cook's departure, Vancouver visited the shores of Australia, on his way to South America, and gave the name “*King George Sound*” to that cove.

Yn 1772, swyddog Ffrengig, o'r enw Marion de Fresne, a ymwelodd â gwlad Van Diemen. Derbyniwyd ef a'i wŷr yn garedig gan y brodorion, pa rai a gasglasant bentwr mawr o friwydd, ac a amneidiasant ar y dyfodiaid newydd i roddi tân dano, i'r dyben (fel yr ymddangosodd wedi hyny) o wybod a oeddynt yn bwriadu gwneyd eu cartref yn y wlad, neu a oeddynt ar ymweliad heddychol. Marion, yn camgymeryd y dull hwn o gyflafareddu, a osododd y coed ar dân; ac ymosodwyd ar ei blaidd yn ebrwydd gan y brodorion, pryd a clwyfwyd Fresne a chydsyddog iddo. Y Ffrancod a daniasant ar yr ymosodwyr, ac a ddychwelasant i'w cychod. Glaniasant eilwaith, ac ymosodwyd arnynt drachefn, pryd y cymerodd brwydr le, ac y lladdwyd llawer o'r ynyswyr. Dyma wreiddyn yr holl elyniaeth rhwng y brodor a'r dyn gwŷn, yr hyn a esgorodd ar erchyllderau na chlywodd clust eu cyffelyb erioed mewn un gongl arall o'r byd (oddigerth gynt yn America), ac a derfynodd yn nifrodiad cenedl gyfan. Hwylodd Marion oddiyma i Zealand Newydd, lle cododd ymrafael cyffelyb rhyngddo a brodorion yr ynys hõno, ac y cafodd efe ei hun, pedwar o'i brif swyddogion, ac un ar ddeg o'r morwyr, eu lladd a'u bwyta, o herwydd iddynt ymosod yn gyntaf ar yr ynyswyr gyda'r creulondeb mwyaf.

Yn 1773, ymwelodd y Cadben Tobias âg Awstralia, ac a adawodd enw ei long i *Adventure Bay*.

Y Cadben Furneaux oedd y nesaf a hwylodd ar hyd arfordir Awstralia, i'r perwyl o wneyd ymchwiliad, ac i benderfynu ai ynys oedd Gwlad Van Diemen, neu ddarn gorynysol o Holland Newydd. Pa fodd bynag, bu ei ymchwiliad yn ofer; oblegid hwylodd ymaith i Zealand Newydd, gan roddi allan ei farn nad oedd un gainc o fôr yn gwahanu Gwlad Van Diemen oddiwrth Holland Newydd.

Yn 1777, y Cadben Cook, gyda llongau ei Fawrhydi, y "*Resolution*" a'r "*Discovery*," a ymwelodd eilwaith âg Awstralia, ac a angorodd yn *Adventure Bay*; ond ni chanfyddodd yntau ynysolrwydd y tir.

Yn mhen pymtheng mlynedd, y Morlywydd D'Entrecasteau a diriodd yn yr un wlad heb ganfod mai ynys oedd. Gellir dyweyd yr un peth am y Cadben Bligh, yr hwn a ymwelodd â'r wlad hon yn 1788 a 1792.

Ar ol *sefydlu* yn Awstralia y gwnaed y darganfyddiadau mwyaf pwysig.

In 1772, a French officer, by the name of Marion de Fresne, visited Van Diemen's land. He and his men were received hospitably by the natives, who gathered a great pile of firewood, and beckoned the newcomers to light a fire under it, in order (as it afterwards appeared) to learn whether they intended making their home in the country, or whether they were on a peaceful visit. Marion, misunderstanding this method of arbitration, set the wood alight; and his party was promptly attacked by the natives, and Fresne and a fellow officer were wounded. The Frenchmen fired on their assailants, and returned to their boats. They landed a second time, and were again attacked, whereupon a battle took place, and many of the islanders were killed. This is the origin of all the enmity between the native and the white man, which brought about atrocities the like of which no ear had ever heard in any other corner of the world (other than in America in former times), and which ended in the destruction of the entire race. From there Marion sailed to New Zealand, where a similar fracas arose between him and the natives of that island, and he got himself, four of his chief officers, and eleven of the sailors, killed and eaten, because they attacked the islanders first with the greatest cruelty.

In 1773, Captain Tobias visited Australia, who gave the name of his ship to Adventure Bay.

Captain Furneaux was the next to sail along the coast of Australia, with the aim of exploration, and to determine whether Van Diemen's Land was an island, or a peninsular part of New Holland. However, his exploration was fruitless; for he sailed away to New Zealand, declaring his opinion that there was no arm of the sea separating Van Diemen's Land from New Holland.

In 1777, Captain Cook, with his Majesty's ships, the "*Resolution*" and the "*Discovery*," visited Australia once again, and anchored in Adventure Bay, but he did not discern the insularity of the land.

Within fifteen years, Admiral D'Entrecasteau landed in the same country without discovering that it was an island. The same can be said of Captain Bligh, who visited this country in 1788 and 1792.

It was after the *settlement* of Australia that the most important discoveries were made.

[TO BE CONTINUED]

[TO BE CONTINUED]